GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Asesiad Yn Seiliedig ar Fodel o Effeithiau Posibl Isafbris Tybaco Yng Nghymru

Dadansoddiad gan ddefnyddio Model Polisi Tybaco ac Alcohol Sheffield v2.6.1

Tachwedd 2026

Damon Morris, Colin Angus, Luke Wilson, Ryan Chen, Alan Brennan, Duncan Gillespie

Grŵp Ymchwil Caethiwed Sheffield, Ysgol Feddygaeth ac Iechyd y Boblogaeth, Prifysgol Sheffield

Manylion Cyswllt

Dr Duncan Gillespie, Uwch Gymrawd Ymchwil, Grŵp Ymchwil Caethiwed Sheffield (SARG), Canolfan Sheffield ar gyfer Iechyd ac Ymchwil Gysylltiedig (SCHARR), Ysgol Meddygaeth ac Iechyd y Boblogaeth, Prifysgol Sheffield, DU. duncan.gillespie@sheffield.ac.uk.

Dyfyniad

Dylid dyfynnu'r adroddiad hwn fel a ganlyn:

Morris D, Angus C, Wilson L, Chen RKL, Brennan A, Gillespie D. Asesiad seiliedig ar fodel o effeithiau posibl isafbris yng Nghymru: Dadansoddiad gan ddefnyddio Model Polisi Tybaco ac Alcohol Sheffield. Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru; 2026.

Cydnabyddiaethau

Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r gwaith hefyd wedi cael cymorth gan SPECTRUM, Consortiwm Partneriaeth Ymchwil Atal yn y DU, a ariennir gan Gynghorau Ymchwil ac Arloesi'r DU, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Lloegr) a gweinyddiaethau datganoledig y DU, ac elusennau ymchwil iechyd blaenllaw (MR/S037519/1).

Tynnwyd gwybodaeth am y rhaniad cymharol mewn defnydd tybaco rhwng sigaréts a wneir mewn ffatri a sigaréts wedi'u rholio â llaw a'r amser ers rhoi'r gorau iddi ar gyfer cyn-ysmygwyr o Astudiaeth Pecyn Cymorth Ysmygu Cymru. Cefnogir gwaith casglu data'r Astudiaeth Pecyn Cymorth Ysmygu gan Cancer Research UK (PRCRPG-Nov21\100002).

Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn archwilio'r cyfraniad posibl y gallai isafbris am dybaco ei wneud tuag at gyflawni'r nod a geir yn Strategaeth Rheoli Tybaco Llywodraeth Cymru o wneud Cymru'n "ddi-fwg" erbyn 2030, a ddiffinnir fel cyffredinrwydd ysmygu drwyddi draw (canran y boblogaeth sy'n ysmygu) o 5% neu lai. Rydym yn gwerthuso effeithiau posibl isafbris fel modd o atal gwerthiannau islaw trothwy pris penodol ac yn modelu'r effaith bosibl ar gyffredinolrwydd y defnydd o dybaco, canlyniadau iechyd a chanlyniadau economaidd.

Mae'r adroddiad yn defnyddio platfform modelu, sef Model Polisi Tybaco ac Alcohol Sheffield, a ddefnyddiwyd yn ddiweddar gan Brifysgol Sheffield i lunio adroddiad i Lywodraeth Cymru ar effeithiau posibl newidiadau yn isafswm pris uned o alcohol yng Nghymru. Defnyddiwyd y model hefyd i fodelu effeithiau polisïau isafbris ar gyfer alcohol a thybaco yn yr Alban.

Amcan yr adroddiad yw archwilio effeithiau posibl pedwar trothwy isafbris gwahanol ar gyfer y farchnad dybaco gyfan yn 2026. Byddai'r trothwyon isafbris yn effeithio ar dybaco wedi'i rolio â llaw yn unig; sef £0.50, a £0.60 y ffon, gan dybio 0.5g o dybaco fesul sigarét wedi'i rholio â llaw. Byddai'r trothwyon hyn yn effeithio ar bris yr holl dybaco wedi'i rolio â llaw ond ni fyddent yn effeithio ar brisiau sigaréts a wneir mewn ffatri. Byddai'r trothwyon isafbris uwch, sef £0.70 a £0.80 y ffon, yn effeithio ar dybaco wedi'i rolio â llaw a sigaréts a wneir mewn ffatri hefyd. Amcangyfrifir canlyniadau ar gyfer cyfraddau ysmygu yn y tymor byr a'r tymor hir a'r effeithiau hirdymor ar gostau iechyd a gofal iechyd, gan gynnwys arbedion posibl i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae'r dadansoddiad hefyd yn rhoi cipolwg ar gostau ysmygu i bobl sy'n ysmygu, gan gynnwys yr amrywiad yn y costau hyn yn ôl amddifadedd y gymdogaeth.

Canfyddiadau:

- Mae isafbris yn offeryn a allai fod yn effeithiol ar gyfer cynyddu pris y tybaco cyfreithlon rhataf ac fe allai arwain at ostyngiadau sylweddol yng nghyfraddau ysmygu a gwelliannau dilynol yn iechyd y cyhoedd. Byddai'r gwelliannau iechyd

hyn yn fwy i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig pan fo cyfraddau ysmygu a'r niweidiau cysylltiedig ar eu huchaf.

- Ar hyn o bryd, mae'r person cyffredin sy'n ysmygu yng Nghymru yn ysmygu'r hyn sy'n cyfateb i 75.5 o ffyn (sigaréts neu dybaco wedi'i rolio â llaw) yr wythnos. Mae'r cyfartaledd ar gyfer pobl sy'n ysmygu sy'n byw yn y pumed o ardaloedd mwyaf difreintiedig (75.6 o ffyn yr wythnos) bron yn union yr un fath â'r cyfartaledd ar gyfer pawb sy'n ysmygu.

- Mae'r person cyffredin sy'n ysmygu yng Nghymru ar hyn o bryd yn gwario £40.64 yr wythnos ar dybaco. Mae pobl sy'n ysmygu sy'n byw yn y pumed o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn gwario cyfartaledd o £38.73 yr wythnos.

- Y tybaco cyfreithlon rhataf yw tybaco wedi'i rolio â llaw. Byddai'r isafbrisiau o £0.50 a £0.60 yn effeithio ar brisiau tybaco wedi'i rolio â llaw yn unig. Amcangyfrifir y bydd y rhain yn achosi gostyngiadau yn nifer y bobl sy'n ysmygu yn ystod y flwyddyn gyntaf o roi'r polisi ar waith o 0.1 pwynt canran (263 yn llai o bobl syn ysmygu) a 0.2 pwynt canran (526 yn llai o bobl yn ysmygu) yn y drefn honno ac yn cynyddu gwariant cyfartalog ar dybaco i bobl sy'n dal i smygu £2.92 a £5.26 yr wythnos o linell sylfaen o £40.64.

- Byddai'r isafbrisiau o £0.70 a £0.80 yn effeithio ar brisiau tybaco wedi'i rolio â llaw a sigaréts a wneir mewn ffatri hefyd. Amcangyfrifon ni y byddent yn achosi gostyngiadau yng nghyffredinrwydd ysmygu ym mlwyddyn gweithredu'r polisi o 0.4% (1,053 yn llai o bobl yn ysmygu), a 0.6% (1,579 yn llai o bobl yn ysmygu), a chynyddu gwariant cyfartalog ar dybaco i bobl sy'n dal i ysmygu £7.55 a £9.81 yr wythnos.

- Mae'r newid yng nghyffredinrwydd ysmygu yn llawer mwy i bobl sy'n byw yn y cymdogaethau mwyaf difreintiedig, gyda gostyngiad o 0.2% yng nghyffredinrwydd ysmygu yn ardaloedd lleiaf difreintiedig Cymru o'i gymharu â gostyngiad o 0.7% yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.

- Gwelir bod effeithiau polisi yn lleihau dros amser, gydag effaith yr isafbris o £0.50 ar gyffredinrwydd yn gostwng o 0.1% i bron sero rhwng 2026 a 2030, ac ar gyfer pris o £0.60 mae'r effaith ar gyffredinrwydd yn leihau o ostyngiad o 0.2% i 0.1% rhwng 2026 a 2030.

- Drwy leihau cyffredinrwydd ysmygu drwy godi pris y tybaco rhataf, amcangyfrifir y bydd isafbris am dybaco yn gwella iechyd y boblogaeth. Amcangyfrifir y bydd isafbris o £0.60 yn lleihau derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig ag ysmygu o 929 ac yn arbed 2,956 o flynyddoedd bywyd dros gyfnod o 20 mlynedd. Mae'r amcangyfrifon o ostyngiadau mewn derbyniadau i'r ysbyty yn amrywio o 362 (isafbris o £0.50) i 2,832 (isafbris o £0.80). O ran blynyddoedd bywyd a arbedir, yr ystod yw arbed rhwng 1,158 (£0.50) ac 8,808 (£0.80).

- O'r blynyddoedd bywyd hyn a achubir, mae dros draean (1,119) yn deillio o'r pumed o'r boblogaeth sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, felly mae'r polisi'n lleihau anghydraddoldebau mewn marwolaethau yn sylweddol.

- Un canlyniad pwysig y dylai penderfynwyr fod yn ymwybodol ohono yw y gallai isafbris gynyddu refeniw i fanwerthwyr a'r diwydiant tybaco. Y rheswm am hyn yw nad treth mo'r isafbris, a bod yr arian ychwanegol y mae'r defnyddwyr yn ei dalu am eu cynhyrchion yn mynd i fanwerthwyr yn bennaf ac y gallai fynd drwodd i'r diwydiant ehangach.

- Er y byddai'r llywodraeth ganolog yn cael refeniw ychwanegol o TAW yn sgil prisiau tybaco uwch, mae hyn yn cael ei wrthbwyso gan y gostyngiad yn y derbyniadau o doll gartref tybaco o ganlyniad i wariant is ar dybaco gan y defnyddwyr.

Crynodeb:

Mae'r canfyddiadau sy'n seiliedig ar fodel a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn dangos sut yr amcangyfrifir bod isafbris ar dybaco yn lleihau cyffredinrwydd ysmygu ac yn gwella iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy waredu tybaco a werthir islaw trothwy'r isafbris o'r farchnad. Byddai hyn yn cyfyngu gallu'r diwydiant tybaco i gadw tybaco cymharol rad ar y farchnad. Byddai isafbris ar gyfer tybaco yn ategu cynnydd parhaus mewn toll gartref ar dybaco gan Lywodraeth y DU drwy atal y diwydiant rhag tanseilio effaith y cynnydd drwy leihau maint yr elw ar dybaco sydd eisoes yn gymharol rhad. Byddai isafbris hefyd yn cynhyrchu refeniw ychwanegol i'r diwydiant tybaco, ond fe ellid lliniaru hyn gyda dulliau polisi ychwanegol sy'n lleihau'r defnydd o dybaco ac yn cyfyngu ar elw'r diwydiant. Er hynny, byddai tybaco anghyfreithlon (heb ei drethu) yn dal yn llawer rhatach nag unrhyw drothwy isafbris ar gyfer tybaco a werthir yn gyfreithlon, gan olygu bod angen mentrau i leihau'r galw am dybaco anghyfreithlon a'r cyflenwad ohono er mwyn sicrhau'r manteision llawn i iechyd y cyhoedd.

Tabl Cynnwys

Crynodeb Gweithredol 3
1. Cyflwyniad 8
1.1. Dull Polisi Presennol y DU 9
1.2. Nodau 11
2. Dulliau 13
2.1. Model TAX-sim 13
2.2. Ymatebion Defnyddwyr i Newidiadau Mewn Prisiau: Elastigeddau Pris y Galw am Dybaco 16
3. Effeithiau Posibl Trothwyon Isafbris Gwahanol 21
3.1. Nodweddion y Boblogaeth Sylfaenol yn 2026 21
3.2. Prisiau Sylfaenol Tybaco yn 2026 22
3.3. Trothwyon Isafbris 24
3.4. Effeithiau ar Ddefnyddio Tybaco 25
3.4.1. Dylanwad Elastigedd Traws-bris y Galw 27
3.5. Effeithiau ar Gyffredinrwydd Ysmygu Hirdymor 30
3.6. Effeithiau ar Wariant Defnyddwyr 32
3.7. Effeithiau ar Iechyd 34
3.8. Effeithiau ar Refeniw Treth y Llywodraeth a Refeniw Manwerthu 38
3.9. Pwysigrwydd Uwchraddio i Fynd i'r Afael â Chwyddiant 39
4. Trafodaeth 43
4.1. Crynodeb o'r Canlyniadau 43
4.2. Dewisiadau Polisi Amgen yn Lle Isafbris 45
4.3. Casgliad 48
Cyfeiriadau 49

Asesiad Yn Seiliedig ar Fodel o Effeithiau Posibl Isafbris Tybaco Yng Nghymru

1. Cyflwyniad

Mae defnyddio tybaco yn gyfrannwr mawr at broblemau iechyd, marwolaethau cynamserol ac anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru, gyda rhyw 10.7% o'r holl farwolaethau ymhlith y rhai 35 oed a throsodd yn gysylltiedig ag ysmygu a 3.4% o'r holl dderbyniadau i'r ysbyty[1]. Nid yw'r baich hwn wedi'i ddosbarthu'n gyfartal ar draws y boblogaeth, gyda 14.5% o farwolaethau yn y pumed mwyaf difreintiedig o ardaloedd lleol yng Nghymru yn deillio o ysmygu o'i gymharu â 7.7% yn y pumed lleiaf difreintiedig[1]. Mae tua 13% o oedolion Cymru yn ysmygu tybaco, ac roedd 4% o bobl ifanc yng Nghymru yn ysmygu o leiaf unwaith yr wythnos yn 2022[2].

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod amcan clir i Gymru fod yn “ddi-fwg” erbyn 2030, a ddiffinnir fel cyffredinrwydd (y ganran o’r boblogaeth sy’n ysmygu tybaco) o lai na 5%[2]. Mae polisïau sy'n cynyddu cost tybaco, yn enwedig y rhai sy'n gwneud y tybaco rhataf yn llai fforddiadwy, yn ffordd effeithiol o leihau cyfraddau ysmygu[3, 4]. Mae codi prisiau tybaco yn cyflawni hyn drwy annog pobl ifanc i beidio â dechrau ysmygu ac annog pobl sy'n ysmygu ar hyn o bryd i ystyried rhoi'r gorau iddi neu roi cymhelliant ychwanegol iddynt wneud hynny. Yn Lloegr, mae cost tybaco yn ffactor pwysig wrth ysgogi pobl i roi'r gorau i ysmygu[5]. Yn y Deyrnas Unedig (DU), mae tollau cartref yn cael eu gosod yn ganolog gan Lywodraeth y DU. Er hynny, mae isafbris yn opsiwn polisi

sydd ar gael i lywodraethau datganoledig o fewn y DU i godi pris y cynhyrchion rhataf a werthir yn gyfreithlon er mwyn annog pobl i beidio â'u defnyddio a gwella iechyd y cyhoedd ac mae wedi'i roi ar waith yn annibynnol yng Nghymru a'r Alban yn achos alcohol.

Daw'r dystiolaeth bresennol ynghylch effeithiau posibl isafbris ar dybaco o'r Unol Daleithiau yn bennaf[6-14]. Mae'r dystiolaeth hon yn dangos y gall gosod isafswm pris ar becyn gynyddu cost y cynhyrchion tybaco rhataf ac, o ganlyniad, leihau nifer y bobl sy'n ysmygu[6]. Yn 2019, dangosodd arolwg yn y DU o oedolion sy'n ysmygu ar hyn o bryd neu a arferai ysmygu, mewn ymateb i isafbris damcaniaethol am dybaco, y byddai tuag un rhan o bump o'r bobl sy'n ysmygu ar hyn o bryd yn ysmygu llai neu'n rhoi'r gorau iddi a nododd bron dwy ran o bump o'r bobl a arferai ysmygu y byddai'r cynnydd mewn pris yn eu helpu i barhau i roi'r gorau iddi[15].

Mewn dadansoddiad diweddar gan ddefnyddio Model Polisi Tybaco ac Alcohol Sheffield (STAPM) ar gyfer yr Alban[16, 17] canfuwyd y byddai isafbris am dybaco yn arwain at ostyngiad yng nghyffredinrwydd ysmygu a gwelliannau i iechyd y cyhoedd drwy leihau nifer y derbyniadau i'r ysbyty a'r marwolaethau sy'n gysylltiedig â thybaco. Er hynny, byddai polisi o'r fath hefyd yn arwain at fwy o wariant ar dybaco gan y rhai oedd yn parhau i ysmygu a mwy o refeniw i fanwerthwyr tybaco a'r diwydiant tybaco ehangach, gan leihau refeniw treth Llywodraeth y DU o dderbyniadau toll gartref ar dybaco a TAW.

1.1. Dull Polisi Presennol y DU

Y dull polisi presennol o ddylanwadu ar bris cynhyrchion tybaco yn y DU yw trwy doll ar dybaco, a osodir gan Lywodraeth y DU (Tabl 1). Yn achos tybaco wedi'i rolio â llaw, swm penodol fesul cilogram o dybaco yw'r doll. Mae i'r doll ar sigaréts a wneir mewn ffatri dair cydran. Y gydran gyntaf yw cydran ad-valorem sy'n ganran o'r pris manwerthu. Mae hyn yn cael ei ychwanegu at yr ail gydran, sef y doll benodol, sef swm penodol fesul 1,000 o sigaréts.

Tabl 1. Cyfraddau treth tybaco ar 31 Hydref 2025

	Cyfradd y doll benodol	Cyfradd y doll ad-valorem	Isafswm toll gartref
Sigaréts wedi'u gwneud mewn ffatri	£334.58 am bob 1,000 o sigaréts	16.5% o'r RRP	£446.67 am bob 1,000 o sigaréts
Tybaco wedi'i rolio â llaw	£476.83 y kg	Ddim yn Berthnasol	Ddim yn Berthnasol

Nodiadau: *Y Pris Manwerthu a Argymhellir

Yn 2017, cyflwynodd llywodraeth y DU yr isafswm toll gartref (MET), a osododd isafswm lefel o doll gartref y mae'n rhaid ei dalu ar sigaréts a wneir mewn ffatri [18]. Mae'r MET, fel y doll benodol, hefyd yn swm sefydlog am bob 1,000 o sigaréts. Mae swm y doll ad-valorem a'r doll benodol yn cael eu cymharu â'r MET, a'r swm uchaf yw'r doll sy'n daladwy. Yn ei hanfod, nod y polisi hwn yw gweithredu fel math o isafbris ar gyfer sigaréts a wneir mewn ffatri. Mae'r polisi'n creu sefyllfa lle, os yw'r diwydiant tybaco yn dymuno gwerthu sigaréts am bris mor rhad nes y byddai'n golygu bod y doll sy'n daladwy islaw'r trothwy MET, yna mae'n rhaid iddyn nhw dalu treth MET ychwanegol. Mae'r dreth MET yn cael ei thalu'n uniongyrchol i Lywodraeth y DU yn hytrach na chael ei hychwanegu at bris y sigaréts. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu, pan gyflwynwyd y MET gyntaf, ei fod wedi gweithredu'n effeithiol fel isafbris ar gyfer sigaréts[18]. Er hynny, yn fwy diweddar mae sigaréts yn cael eu gwerthu am brisiau digon rhad fel bod y dreth sy'n daladwy islaw trothwy'r MET. Yn ychwanegol, mae'n bwysig nodi nad oes gan y MET unrhyw effaith ar gost tybaco rholio â llaw gan mai dim ond at sigaréts a wneir mewn ffatri y mae'n cael ei chymhwyso.

Gallwn weld yn ymarferol effeithiolrwydd y MET wrth osod pris gwaelodol sy'n atal gallu'r diwydiant i werthu sigaréts rhad a wneir mewn ffatri. Roedd cyfraddau'r doll ar gyfer sigaréts a wneir mewn ffatri ym mis Mai 2024 yn 16.5% o'r pris manwerthu a argymhellir (RRP) ynghyd â £316.70 am bob 1,000 o sigaréts, gyda MET o £422.80 am bob 1,000 o sigaréts. Fel cyfartaledd am bob pecyn o 20 sigarét, cyfrifir hyn fel 0.165 × RRP plws toll benodol o £6.334 (20 * £316.70/1000), gyda MET o £8.46 am bob pecyn o 20 (20 * £422.80/1000).

Gan hynny, yr RRP lle mae 0.165 × RRP + 6.334 = £8.46 yw'r RRP isaf y gellir ei osod lle byddai swm y doll ad-valorem a'r doll benodol yn cwmpasu'r MET. Os caiff yr RRP ei ostwng islaw'r pris hwn, mae'r doll gartref sy'n daladwy yn aros yr un fath oherwydd y MET, gan leihau proffidioldeb pob pecyn. Yr RRP hwn yw £12.861 y pecyn o 20 sigarét, neu 64.3c y sigarét. Arweiniodd chwiliad o wefan Tesco ar 09/05/2024 at 30 o gynhyrchion â phris o lai na 64c y sigarét, gyda phrisiau mor isel â 56c. Yn ôl 64c a 56c, cyfanswm y doll gartref sy'n daladwy fydd £8.46 y pecyn, neu 42c y sigarét, felly mae prisio islaw 64c yn golygu bod y diwydiant yn derbyn gostyngiad yn eu refeniw net fesul ffon. Mae bodolaeth prisiau yn y farchnad sy'n is na'r pris sy'n bodloni trothwyon y MET yn dangos bod y diwydiant yn gweld mantais strategol wrth wneud hynny, er gwaethaf refeniw is o'r cynhyrchion hynny.

Efallai y bydd y diwydiant yn cael ei gymell i brisio islaw'r trothwy MET er mwyn cynnal bodolaeth cynhyrchion tybaco rhatach a chadw cwsmeriaid a allai fel arall roi'r gorau i ysmygu'n gyfan gwbl. Gan hynny, nid yw bodolaeth trothwy MET yn llwyr atal y diwydiant tybaco rhag cynnig rhai o'i gynhyrchion sigaréts a wneir mewn ffatri am brisiau rhad ac nid yw'n cael ei gymhwyso o gwbl at y tybaco rholio â llaw rhatach. Byddai isafbris am dybaco i bob pwrpas yn codi prisiau'r tybaco rhataf drwy osod isafswm pris manwerthu sy'n gyfreithiol rwymol, fel sy'n wir gydag isafbris uned yng nghyd-destun alcohol yng Nghymru a'r Alban.

1.2. Nodau

Nod yr adroddiad hwn yw rhoi asesiad o effeithiau posibl isafbris ar dybaco yng Nghymru, o ran ei effaith ar gyfraddau ysmygu tybaco ac ar ganlyniadau iechyd a chanlyniadau economaidd sy'n gysylltiedig â thybaco. Mae'n defnyddio'r Model Efelychu Ymyriadau Trethi a Phrisiau Tybaco ac Alcohol (TAX-sim), sydd wedi'i adeiladu ar blatfform Modelu Polisi Tybaco ac Alcohol Sheffield (STAPM). Gall y model TAX-sim efelychu polisïau trethi a phrisiau ar gyfer alcohol a thybaco, naill ai ar wahân neu ar y cyd. Fe'i defnyddiwyd yn flaenorol i fodelu effaith bosibl newidiadau yn yr isafbris uned ar gyfer alcohol yng Nghymru[19] a'r Alban[20], yn ogystal â'r isafbris posibl ar gyfer tybaco yn yr Alban[16, 17]. Yn yr ymchwiliad hwn, defnyddiwyd y model i

archwilio effaith newidiadau prisiau ar dybaco yn unig, heb unrhyw archwiliad o newidiadau ym mholisi prisio alcohol nac unrhyw effeithiau anuniongyrchol ar yfed alcohol.

2. Dulliau

2.1. Model TAX-sim

Mae'r model yn ficro-efelychiad deinamig sy'n creu poblogaeth synthetig yn seiliedig yn bennaf ar ddata o Arolwg Cenedlaethol Cymru (NSW)[21] i gynrychioli faint o dybaco sy'n cael ei ddefnyddio ym mhoblogaeth Cymru (gweler y disgrifiad technegol o'r gydran tybaco yng ngwaith modelu STAPM i gael y manylion[22]). Mae'n ymgorffori tueddiadau mewn cyffredinrwydd ysmygu a nifer cyfartalog y sigaréts a ysmygir bob dydd ar draws oedran, rhyw a chwintelau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC). Mae MALlC yn fesur cyfansawdd sy'n seiliedig ar wahanol ddangosyddion fel incwm, cyflogaeth, addysg, tai, a mwy, wedi'i gyfrifo ar gyfer ardaloedd daearyddol bach yng Nghymru, pob un yn cynrychioli rhyw 1,500 o bobl[23]. Mae sgoriau MALlC yn cael eu rhannu'n gwintelau, gyda'r cwintel cyntaf yn cynrychioli'r ardaloedd lleiaf difreintiedig a'r pumed cwintel yn cynrychioli'r rhai mwyaf difreintiedig.

Mae'r efelychiad yn symud ymlaen mewn cynyddrannau o flwyddyn nes cyrraedd terfyn amser sydd wedi'i ddiffinio ymlaen llaw, sef y flwyddyn 2043 yn yr achos hwn. Ym mhob cam amser, cyflwynir unigolion newydd i'r model yn 18 oed, tra bo unigolion yn gadael y model pan fyddant naill ai'n marw neu'n cyrraedd y terfyn oedran uchaf o 89.

Mae'r model yn gweithredu drwy efelychu deinameg ysmygu a'i effaith ar wariant tybaco ac ar iechyd yn nhermau cyfraddau marwolaethau ac afiachedd o glefydau sy'n gysylltiedig ag ysmygu[24]. Mae'n olrhain sut mae unigolion yn symud trwy dri chyflwr ysmygu gwahanol wrth heneiddio mewn cyfnodau o flwyddyn: pobl sydd erioed wedi ysmygu, pobl sy'n ysmygu ar hyn o bryd, a phobl a fu'n ysmygu am nifer penodol o flynyddoedd ers rhoi'r gorau iddi. Yna mae'n cysylltu'r cyflyrau hyn â chyfraddau marwolaethau ac afiachedd. Mae tueddiadau cyffredinol o ran cyffredinrwydd ysmygu yn cael eu dylanwadu gan gyfraddau dechrau ysmygu yn ifanc (o dan 30 oed), rhoi'r gorau iddi, llithro'n ôl, a marwolaethau cynamserol sy'n gysylltiedig ag ysmygu.

I bobl sy'n ysmygu ar hyn o bryd, mae newidiadau yn nifer cyfartalog y sigaréts a ysmygir bob dydd wrth iddynt heneiddio yn cael eu efelychu trwy eu cadw ar yr un ganradd o ran faint a ysmygir, ond addasu'r swm a ysmygir sy'n cyfateb i bob canradd ar sail dosraniadau cyfeirio gwahanol ar gyfer pob oedran. Mae'r dosraniadau hyn yn amrywio yn ôl rhyw a chwintel MALlC ac fe'u hamcangyfrifir o'r sampl poblogaeth sylfaenol. Gan hynny, mae pobl sy'n ysmygu yn dilyn llwybr ysmygu personol dros amser. I'r rhai sy'n dechrau ysmygu neu'n llithro'n ôl i ysmygu, pennir nifer y sigaréts maen nhw'n eu hysmygu trwy samplu o'r dosbarthiad sy'n benodol i'w hoedran, eu rhyw a'u cwintel MALlC. Er nad yw'r model yn cysylltu symiau ysmygu unigolion â chanlyniadau iechyd, mae'n defnyddio'r wybodaeth hon i amcangyfrif canlyniadau gwariant tybaco.

Mae tueddiadau yng nghyffredinrwydd ysmygu yn gysylltiedig â chyfraddau marwolaethau a derbyniadau i'r ysbyty o 52 o afiechydon sy'n gysylltiedig â thybaco ymhlith oedolion sy'n ysmygu, yn deillio o adolygiadau o'r llenyddiaeth.[24]. Mae'r model hefyd yn ymgorffori tystiolaeth ar y bwlch amser rhwng rhoi'r gorau i ysmygu a newidiadau yn y risg o glefydau, a all fod ar unwaith yn achos rhai cyflyrau ond a all gymryd degawdau ar gyfer cyflyrau eraill, fel rhai mathau o ganser[24]. Cyfrifir y cyfraddau marwolaeth a'r cyfraddau derbyn i'r ysbyty ar gyfer pob un o'r 52 clefyd sy'n gysylltiedig â thybaco ar wahân yn ôl oedran, rhyw, a chwintel MALlC, ar sail data a ddarperir gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Amcangyfrifir cyfraddau a chostau uned derbyniadau i'r ysbyty drwy ddefnyddio'r un dulliau â'n hadroddiadau diweddar ar isafbris uned o alcohol[19, 20]. Amcangyfrifwyd costau uned derbyniadau i'r ysbyty o ddata o Loegr a'u chwyddo i gyfateb i flwyddyn bris 2023/24.

Mae'r model yn darparu amcangyfrifon ar gyfer amrywiol ganlyniadau, gan gynnwys (i) canlyniadau defnydd fel cyffredinrwydd ysmygu a gwariant wythnosol ar gynhyrchion tybaco, (ii) canlyniadau iechyd, sy'n cwmpasu blynyddoedd o fywyd a gollwyd (YLLs) oherwydd marwolaeth gynamserol, derbyniadau i'r ysbyty o gyflyrau sy'n gysylltiedig â thybaco, a chostau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yn sgil y derbyniadau hyn, a (iii) canlyniadau economaidd – prisiau cymedrig a delir, dosbarthiad

yr holl brisiau a delir, cyfanswm gwariant blynyddol defnyddwyr ar dybaco, refeniw treth Llywodraeth y DU o dollau tybaco a TAW, a refeniw manwerthwyr/diwydiant.

Dull model TAX-sim STAPM yw amcangyfrif braich reoli (neu “fusnes fel arfer”) y mae pob ymyriad yn cael ei gymharu yn ei herbyn. Mae pob model yn dechrau yn y flwyddyn 2022, ac rydym yn cymryd yn ganiataol y cyflwynir unrhyw ymyriadau polisi yn 2026, gyda'r model yn cael ei redeg am 20 mlynedd arall, tan 2046, er mwyn caniatáu asesiad o effeithiau hirdymor y polisi. Felly, "blwyddyn effaith polisi" 2026 yw'r flwyddyn gyntaf y mae'r fraich ymyrraeth (lle mae’r polisïau'n cael eu newid) yn gwyro oddi wrth y fraich reoli (lle tybir bod y polisïau'n aros yn gyson). Tybir y bydd strwythurau treth tybaco yn y fraich reoli yn aros yr un fath ar ôl 2025, gyda chyfraddau treth yn ddigyfnewid mewn termau real o'u gwerthoedd yn 2025 (fel y'u gosodwyd yng Nghyllideb Hydref 2024) drwy gydol cyfnod y model. Yr unig eithriad i hyn yw ein bod yn tybio bod y fformiwla codi treth tybaco, lle mae treth tybaco yn cael ei chynyddu bob blwyddyn yn ôl canran benodol uwchlaw chwyddiant RPI. Yn yr achos hwn, tybir y bydd yn parhau ar y lefel o 2% uwchlaw chwyddiant ar gyfer sigaréts a wneir mewn ffatri a thybaco sy’n cael ei rolio â llaw. Sylwch fod cynnydd o 12% uwchlaw chwyddiant wedi bod mewn treth ar dybaco rholio â llaw yn y ddau ddigwyddiad cyllidol blaenorol gan lywodraeth y DU (Tachwedd 2023 a Hydref 2024). Rydym yn tybio y bydd hyn yn dychwelyd i gynnydd “busnes fel arfer” o 2% uwchlaw chwyddiant yn unol â sigaréts a wneir mewn ffatri – fel yr oedd yn wir yng Nghyllideb 2025[25].

Gall mesurau polisi ddylanwadu ar y defnydd o dybaco mewn sawl ffordd. Gallant atal unigolion a fyddai wedi dechrau ysmygu rhag gwneud hynny neu annog pobl sy'n ysmygu ar hyn o bryd i roi'r gorau iddi. Yn ychwanegol, gallant leihau faint o dybaco sy'n cael ei ddefnyddio gan bobl sy'n ysmygu ar hyn o bryd. Mae'r effeithiau hyn yn parhau yn y blynyddoedd dilynol o fewn y model drwy'r mecanweithiau canlynol:

1. Addasu faint o dybaco mae pobl 18 oed newydd yn ei ddefnyddio yn flynyddol i adlewyrchu effaith y polisi.

2. Gall unigolion sy'n newid i beidio ag ysmygu oherwydd y polisi, dros amser, newid eu statws ysmygu yn ôl ac ymlaen i ysmygu oherwydd efelychiad

deinamig o newidiadau sy'n gysylltiedig ag oedran mewn defnyddio tybaco trwy gychwyn, rhoi'r gorau iddi a llithro'n ôl. Gallai hyn eu harwain i ddechrau ysmygu eto, ac efallai y byddant yn rhoi'r gorau iddi eto wedyn.

3. I unigolion sy'n parhau i ysmygu, gall effaith y polisi symud yr unigolyn i ganradd wahanol yn nosbarthiad y boblogaeth o ran defnydd tybaco, h.y. newid nifer cyfartalog y sigaréts y maent yn eu hysmygu bob dydd o'u cymharu â phobl sy'n ysmygu yn y fraich reoli. Yna bydd eu cwrs bywyd dilynol o ddefnyddio tybaco yn dilyn trywydd gwahanol, gan gyfateb i'w safle newydd yn y dosbarthiad.

2.2. Ymatebion Defnyddwyr i Newidiadau Mewn Prisiau: Elastigeddau Pris y Galw am Dybaco

Mae'r amcangyfrifon o effeithiau'r polisi yn dibynnu'n gryf ar y rhagdybiaethau ynghylch sut y bydd y defnyddwyr yn ymateb i godiadau mewn prisiau, fel y'u hamcangyfrifir yn ôl elastigeddau pris y galw am dybaco. Mae'r adroddiad hwn yn ymgorffori tystiolaeth ar ymatebion posibl defnyddwyr yn y DU i newidiadau ym mhrisiau tybaco, a i ba raddau y gallai newidiadau ym mhris tybaco rholio â llaw effeithio ar y galw am sigaréts a wneir mewn ffatri ac i'r gwrthwyneb.

Mae "elastigedd pris penodol y galw" yn mesur y newid canrannol yn y galw am gynnyrch penodol sy'n deillio o gynnydd o 1% yn ei bris. Er enghraifft, os yw elastigedd pris penodol y galw am sigaréts a wneir mewn ffatri yn – 0.5, byddai cynnydd o 1% mewn prisiau yn arwain at ostyngiad o 0.5% yn y galw. Mae hyn yn golygu y byddai defnyddwyr yn prynu llai o sigaréts ond yn talu mwy amdanynt drwyddi draw. I ddangos hyn, bwriwch fod 1,000 o bobl wedi prynu pecyn o 20 sigarét yr un am £15.00 i ddechrau. Byddai hyn yn arwain at werthu 20,000 o sigaréts am gyfanswm cost o £300,000. Os bydd y pris yn cynyddu 1% i £15.15, yna o dan elastigedd pris y galw o– 0.5 byddem yn disgwyl i 19,900 o sigaréts (h.y. 0.5% yn llai) gael eu gwerthu. Er hynny, byddai cyfanswm y gost yn codi i £301,485.

Mae amcangyfrifon o Brifysgol Sheffield gan Pryce a'r cyd-awduron yn dangos bod gan dybaco rholio â llaw a sigaréts a wneir mewn ffatri wahanol elastigeddau pris penodol eu hunain[26]. Mae'r amcangyfrifon hyn wedi'u rhannu'n ddwy ran: effaith pris ar a yw rhywun yn penderfynu prynu cynnyrch, sy'n cael ei alw'n "gyfranogiad" (Tabl2), ac, os ydyn nhw'n prynu, faint maen nhw'n ei brynu, sy'n cael ei alw'n "ddefnydd amodol" (

Tabl3).

Tabl2 Elastigeddau prisiau cyfranogiad yn y galw o Pryce et al. Mae'r rhain yn dangos y newid cyfrannol yn y tebygolrwydd y bydd rhywun yn defnyddio cynnyrch neu beidio mewn ymateb i gynnydd ym mhris y cynnyrch.

		Newid defnydd	
		Sigaréts	Tybaco wedi'i rolio â llaw
Newid pris	Sigaréts	−0.169***	−0.135
	Tybaco wedi'i rolio â llaw	−0.080	−0.089*

*Mae'r sêr yn dynodi arwyddocâd ystadegol yr elastigedd; * p < 0.1, ** p < 0.05, *** p < 0.01*

Tabl3 Elastigeddau prisiau defnydd amodol yn y galw o Pryce et al. Mae'r rhain yn dangos y newid cyfrannol yn faint o gynnyrch y mae pobl sy'n defnyddio o leiaf rhywfaint ohono yn ei ddefnyddio ar gyfartaledd bob dydd mewn ymateb i gynnydd ym mhris y cynnyrch.

		Newid defnydd	
		Sigaréts	Tybaco wedi'i rolio â llaw
Newid pris	Sigaréts	−0.513***	−0.222
	Tybaco wedi'i rolio â llaw	−0.080	−0.226*

*Mae'r sêr yn dynodi arwyddocâd ystadegol yr elastigedd; * p < 0.1, ** p < 0.05, *** p < 0.01*

Rydym hefyd yn cyfrifo sut y gallai galw defnyddwyr am sigaréts a wneir mewn ffatri ymateb i gynnydd mewn prisiau tybaco rholio â llaw, ac i'r gwrthwyneb. Gelwir y rhain yn "elastigeddau traws-bris yn y galw". Mae amcangyfrifon Prifysgol Sheffield yn dangos bod cynnydd ym mhris naill ai sigaréts a wneir mewn ffatri neu dybaco rholio â llaw yn arwain at ostyngiad yn y galw am y cynnyrch arall[26]. Mae hyn yn awgrymu

bod sigaréts a wneir mewn ffatri a thybaco rholio â llaw yn gynhyrchion cyflenwol: pan fydd pris un yn codi, mae'r galw am y ddau yn lleihau e.e. mae'r elastigeddau

Tabl3 yn

golygu y bydd cynnydd o 1% ym mhris tybaco wedi'i rolio â llaw yn lleihau'r defnydd o sigaréts a wneir mewn ffatri gan ysmygwyr o 0.08%.

Mae'n bwysig nodi'r ansicrwydd ynghylch sut mae newidiadau pris mewn un cynnyrch yn effeithio ar ddefnydd y llall. Mae'r ansicrwydd ystadegol yn amcangyfrifon traws-elastigedd prisiau Pryce et al. yn ddigon eang i nodi senario llai tebygol, ond posibl, lle gallai'r ddau gynnyrch fod yn amnewidion. Mae yna dystiolaeth hefyd sy'n awgrymu y gall tybaco rholio â llaw weithredu fel dewis arall yn lle sigaréts a wneir mewn ffatri pan fydd prisiau'n codi[27]. Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) elastigeddau prisiau tybaco newydd yn y galw a amcangyfrifwyd gan CThEF, gan gynnwys amcangyfrifon o'r elastigedd traws-bris rhwng sigaréts a wneir mewn ffatri a tybaco rholio â llaw[28]. Canfu dadansoddiad CThEF elastigeddau traws-bris positif rhwng sigaréts a wneir mewn ffatri a thybaco wedi'i rolio â llaw, gan awgrymu bod y ddau gynnyrch yn amnewidion.

Os yw sigaréts a wneir mewn ffatri a thybaco wedi'i rolio â llaw yn amnewidion (elastigeddau traws-bris positif), effaith codi pris tybaco wedi'i rolio â llaw fyddai cynyddu'r defnydd o sigaréts a wneir mewn ffatri, gan wrthbwyso rhywfaint o'r gostyngiad posibl yng nghyfforddinrwydd ysmygu yn sgil codi pris tybaco rholio â llaw rhatach. Ar y llaw arall, os yw'r cynhyrchion yn gyflenwol i'w gilydd, effaith codi pris tybaco wedi'i rolio â llaw fyddai lleihau'r defnydd o sigaréts a wneir mewn ffatri, gan chwyddo'r gostyngiad posibl yng nghyfforddinrwydd ysmygu.

Yn achos sylfaenol ein model ni rydym yn defnyddio elastigeddau Pryce et al. ynTabl2 a

Tabl3, gyda'r elastigeddau traws-bris wedi'u gosod yn hafal i sero, i adlewyrchu'r graddau uchel o ansicrwydd ystadegol ynghylch yr effeithiau traws-bris. Gan fod y ddwy set o elastigeddau traws-bris rhwng sigaréts a wneir mewn ffatri a thybaco

rholiow â llaw yn negyddol, mae eu gosod yn hafal i sero yn creu amcangyfrif mwy ceidwadol o effaith codiadau mewn prisiau ar ostyngiadau yng nghyffredinrwydd ysmygu. I ddangos effaith yr ansicrwydd hwn, rydym hefyd yn cyflwyno dadansoddiad sensitifrwydd o'n canlyniadau ar gyfer effeithiau ar gyffredinrwydd ysmygu pan gynhwysir yr effeithiau traws-bris. Yn ein dadansoddiadau sensitifrwydd nad ydynt yn gosod yr elastigeddau traws-bris yn hafal i sero, gall unigolion roi'r gorau i ysmygu'r

ddau gynnyrch os bydd pris tybaco wedi'i rolio â llaw yn cynyddu, gan y bydd hyn yn arwain at lai o debygolrwydd o ddefnyddio sigaréts a wneir mewn ffatri hefyd oherwydd yr elastigeddau traws-bris negyddol o ran galw am gyfranogiad (Tabl2).

Yn ychwanegol at ansicrwydd ynghylch a yw'r elastigeddau traws-bris rhwng cynhyrchion tybaco yn gadarnhaol ynteu'n negyddol, mae'n bwysig nodi bod elastigeddau pris penodol Pryce et al. a ddefnyddir yn y gwaith modelu hwn yn llai na elastigeddau CThEF/OBR[28]. Mae'r gwahaniaeth yn yr amcangyfrifon yn deillio o wahaniaethau yn y dulliau a'r ffynonellau data. Mae'r elastigeddau a ddefnyddir gan yr OBR wedi'u seilio cynhyrchion tybaco agregedig ac yn defnyddio dulliau dadansoddi cyfres amser, tra bo dadansoddiad Pryce et al. wedi'i seilio ar ddata'r Arolwg Costau Byw a Bwyd ar lefel unigol gan ddefnyddio modelau atchweliad trawstoriadol. Dewiswyd defnyddio elastigeddau Pryce et al. am fod modd defnyddio'r rhain i fodelu newidiadau yng nghyffredinrwydd ysmygu yn benodol a'u bod wedi'u seilio ar ddata arolwg ymddygiadol ar lefel unigol, tra bo elastigeddau CThEF/OBR yn modelu newidiadau yng nghyfanswm y defnydd yn unig, heb wahaniaethu rhwng faint o bobl sy'n ysmygu a faint mae'r rhai sy'n ysmygu yn ei ddefnyddio.

Er mwyn modelu effaith cyflwyno trothwy isafbris ar y defnydd o dybaco, dechreuon ni drwy asesu sut mae symud prisiau cynhyrchion i fyny i'r trothwy newydd yn effeithio ar brisiau cyfartalog tybaco rholio â llaw a sigaréts a wneir mewn ffatri. Yna rydym yn cymryd y newidiadau cyfrannol mewn prisiau cyfartalog ac yn cymhwyso elastigeddau pris y galw i amcangyfrif yr effeithiau disgwyliedig ar ddwy agwedd: a yw rhywun yn defnyddio tybaco rholio â llaw neu sigaréts a wneir mewn ffatri o gwbl, ac os ydynt yn eu defnyddio, yr effaith ar faint y maen nhw'n ei ddefnyddio.

Er mwyn i newid pris ddylanwadu ar gyffredinrwydd ysmygu, rhaid iddo arwain unigolion a fyddai fel arfer yn defnyddio un neu'r ddau o'r cynhyrchion tybaco hyn i newid eu hymddygiad i'r graddau nad ydynt yn defnyddio'r naill na'r llall mwyach. Gan hynny, gallai effaith arwyddocaol ar bris tybaco rholio â llaw gael effaith llai amlwg ar gyffredinrwydd ysmygu os yw defnyddwyr y ddau gynnyrch yn rhoi'r gorau i ddefnyddio tybaco wedi'i rolio â llaw ond yn parhau i ddefnyddio sigaréts a wneir mewn ffatri. Bydd hyn yn digwydd pan fydd y trothwy isafbris yn ddigon isel fel nad

yw'n effeithio ar bris sigaréts a wneir mewn ffatri, a phan nad yw newidiadau ym mhris tybaco wedi'i rolio â llaw yn unig yn effeithio ar y defnydd o sigaréts a wneir mewn ffatri – fel yn ein hachos sylfaenol lle mae'r elastigeddau traws-bris wedi'u gosod yn hafal i sero.

3. Effeithiau Posibl Trothwyon Isafbris Gwahanol

3.1. Nodweddion y Boblogaeth Sylfaenol yn 2026

Mae Tabl 4 yn cyflwyno nodweddion sylfaenol disgwyliedig ysmygu yng Nghymru yn 2026, ar ôl modelu llwybrau ysmygu yn seiliedig ar bolisi treth a thueddiadau parhaus yng nghyffredinrwydd ysmygu rhwng 2022 a 2026, yn seiliedig ar boblogaeth synthetig gynrychioliadol o oedolion Cymru a gynhyrchwyd o ddata Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022/23. Amcangyfrifir bod cyffredinrwydd ysmygu ymhlith oedolion yn 10.7% gyda graddiant economaidd-gymdeithasol clir, gyda 4.7% o'r boblogaeth oedolion yn ardaloedd lleiaf difreintiedig Cymru yn ysmygu o'i gymharu â 17.1% yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae cyffredinrwydd ysmygu tybaco wedi'i rolio â llaw yn dilyn patrwm economaidd-gymdeithasol tebyg, gyda 6.4% o oedolion Cymru yn cael eu hamcangyfrif yn ddefnyddwyr tybaco wedi'i rolio â llaw yn 2026, yn amrywio o 2.4% yn y pumed lleiaf difreintiedig o ardaloedd i 10.8% yn y mwyaf difreintiedig. I grynhoi, mae ymddygiad ysmygu yn fwy cyffredin yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, ac mae mwy o ddefnydd o dybaco wedi'i rolio â llaw cymharol rad yn yr ardaloedd hyn.

Tabl 4. Modelwyd defnydd a gwariant tybaco sylfaenol yn 2026 yn ôl cwintel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

	Poblogaeth	MALlC C1 (lleiaf difreintiedig)	MALlC C2	MALlC C3	MALlC C4	MALlC C5 (mwyaf difreintiedig)
Nifer y bobl sy'n ysmygu	263,219	22,446	35,950	65,227	59,302	80,294
% o'r holl bobl sy'n ysmygu	100.0%	8.5%	13.7%	24.8%	22.5%	30.5%
Cyffredinrwydd ysmygu (%)	10.7%	4.7%	7.3%	12.2%	12.4%	17.1%
Cyffredinrwydd ysmygu tybaco rholio â llaw (%)	6.4%	2.4%	4.7%	6.9%	7.2%	10.8%
Ffyn cyfartalog fesul ysmygwr fesul wythnos	75.5	83.7	77.3	73.1	73.8	75.6
Gwariant cyfartalog fesul ysmygwr fesul wythnos	£40.64	£46.43	£40.81	£42.67	£38.71	£38.73
Pris cyfartalog fesul ffon (pob tybaco)	£0.54	£0.56	£0.53	£0.58	£0.52	£0.51
Pris cyfartalog fesul ffon (sigaréts)	£0.70	£0.71	£0.70	£0.69	£0.69	£0.69
Pris cyfartalog fesul ffon (tybaco wedi'i rolio â llaw)	£0.40	£0.40	£0.40	£0.40	£0.40	£0.40


3.2. Prisiau Sylfaenol Tybaco yn 2026

Yn 2026, amcangyfrifir bod pris cyfartalog ffon o dybaco yn £0.54 (Tabl 4). Mae sigaréts a wneir mewn ffatri yn costio tua £0.70 ar gyfartaledd (neu £14 am becyn o 20). Mae tybaco wedi'i rolio â llaw yn rhatach, sef £0.40 y ffon, sy'n cyfateb i £40 am 50 gram gan dybio bod pob ffon yn cynnwys 0.5 gram o dybaco[29]. Ar gyfartaledd, mae'r pris fesul ffon o dybaco a delir gan ddefnyddwyr yn is yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (£0.51) o'i gymharu â'r ardaloedd lleiaf difreintiedig (£0.56), a hynny er gwaethaf y gwahaniaeth bach yn y prisiau cyfartalog a delir am sigaréts wedi'u

gwneud mewn ffatri a thybaco wedi'i rolio â llaw ar wahân ar draws cwintelau MALlC – mae'r gwahaniaeth yn y prisiau cyfartalog cyffredinol a delir yn deillio o'r duedd uwch i ddefnyddio tybaco wedi'i rolio â llaw cymharol rad mewn ardaloedd mwy difreintiedig, yn hytrach na'r sigaréts drutach a wneir mewn ffatri[30]. Mae gwariant cyffredinol fesul person sy'n ysmygu yn uwch yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig (£46.43 yr wythnos) na'r rhai mwyaf difreintiedig (£38.73). Mae hyn yn adlewyrchu bod tybaco rholio â llaw rhatach yn fwy cyffredin yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a defnydd cyfartalog is gan bobl sy'n ysmygu yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (75.6 o ffyn yr wythnos o'i gymharu ag 83.7 o ffyn yr wythnos yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig).

Mae dosraniadau cronnol gwariant yn ôl pris y cynnyrch yn Ffigur 1 dangos yr ystodau prisiau wedi'u modelu ar gyfer tybaco wedi'i rolio â llaw a sigaréts wedi'u gwneud mewn ffatri yn 2026 yn niffyg isafbris, gyda'r holl brisiau wedi'u mynegi fesul ffon o dybaco. Mae'n dangos y gyfran o bob cynnyrch a werthir am bris penodol neu islaw hynny, e.e. mae tua 30% o dybaco wedi'i rolio â llaw yn cael ei werthu am 40c y ffon, tra bo'r holl dybaco wedi'i rolio â llaw yn cael ei werthu o dan £0.50 y ffon. Mae'r ffigur yn dangos pob un o'r trothwyon isafbris wedi'u modelu o ran eu heffaith ar ddosraniadau prisiau pob cynnyrch. Dim ond canran fach o'r cynhyrchion tybaco rholio â llaw rhataf y mae'r trothwy 30c yn effeithio arnynt, tra byddai'r trothwyon £0.50 a £0.60 yn codi pris yr holl dybaco rholio â llaw heb effeithio ar brisiau sigaréts a wneir mewn ffatri. Byddai'r trothwy isafbris o £0.80 yn codi pris yr holl dybaco wedi'i rolio â llaw a bron pob cynnyrch sigaréts a wneir mewn ffatri.

I ddechrau, pan amcangyfrifwyd y dosraniadau prisiau, roeddent yn seiliedig ar brisiau 2022. I adlewyrchu dosbarthiad prisiau 2026, diweddarwyd y dosraniadau cychwynnol i ystyried chwyddiant RPI ac unrhyw newidiadau treth a ddigwyddodd yn y cyfamser, gan dybio y byddai'r fformiwla codi treth tybaco yn parhau. Ymgorfforwyd paramedr ychwanegol hefyd i addasu pen isaf dosbarthiad prisiau'r cynhyrchion a wneir mewn ffatri i ystyried cynhyrchion a werthir am brisiau islaw'r trothwy MET.



Ffigur 1. Dosbarthiad cronnol ffyn a werthir ym mhob band prisiau ar gyfer tybaco wedi'i rolio â llaw a sigaréts a wneir mewn ffatri. Canlyniad wedi'i fodelu ar gyfer llinell sylfaen 2026 heb gyflwyno isafbris ar gyfer tybaco.

3.3. Trothwyon Isafbris

Mae'r adran hon yn amlinellu diffiniad trothwyon isafbris ar gyfer tybaco a sut maen nhw'n cael eu cymhwyso er mwyn addasu prisiau tybaco yn y model. Gweler Adran 3.4 i weld yr effeithiau canlyniadol ar ddefnyddio tybaco.

Yn yr ymchwiliad hwn, yr isafbris yw pris trothwy fesul ffon o dybaco na ellir gwerthu tybaco oddi tano, gan dybio bod sigarét wedi'i rholio â llaw yn cynnwys 0.5g o dybaco. Ymchwilir i bedwar trothwy isafbris ar gyfer tybaco, wedi'u gosod ar £0.50, £0.60, £0.70 a £0.80 fesul ffon sigarét, gyda'r trothwyon hyn wedi'u diffinio ym mhrisiau 2026.Ffigur 1 ar gyfer sut mae'r trothwyon hyn yn cyd-fynd â dosbarthiad prisiau tybaco. Dewisir y trothwy isafbris o £0.50 i effeithio ar ddosbarthiad llawn prisiau tybaco wedi'i rolio â llaw, gyda chodiadau o 10c yn cael eu harchwilio hyd at £0.80 sy'n effeithio ar ddosbarthiad llawn bron y sigaréts a wneir mewn ffatri.

Ym mhob dadansoddiad rydym yn tybio bod y trothwy isafbris yn cael ei addasu'n flynyddol yn unol â chwyddiant RPI. Rydym yn defnyddio'r RPI at y diben hwn yn hytrach na mynegeion chwyddiant eraill am mai dyma'r mesur a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU i osod cyfraddau treth wedi'u mynegeio yn ôl chwyddiant ar gyfer tybaco. Cafwyd data'r RPI o gyfuniad o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol[31] a'r OBR, gyda rhagolygon a rhagdybiaethau am chwyddiant yn y dyfodol yn deillio o benderfynyddion economaidd hirdymor yr OBR[32].

Ar ôl diweddaru'r dosbarthiad prisiau ar gyfer effeithiau parhaus y fformiwla codi treth tybaco yn y gangen reoli a'r gangen ymyrraeth, cymerir copi o'r dosbarthiad hwnnw, a chymhwysir y trothwy isafbris ato yn y gangen ymyrraeth. Mae'r dosbarthiad hwn yn cynrychioli'r prisiau y mae'r defnyddwyr yn eu hwynebu. Caiff prisiau sy'n disgyn islaw'r trothwy isafbris ar gyfer y flwyddyn honno eu haddasu i fyny i gyrraedd y trothwy, heb effeithio ar unrhyw brisiau uwchlaw'r trothwy. Mae hyn yn cyd-fynd â'r dull a gymerwyd yn y gwaith modelu STAPM o isafbris uned o alcohol[19, 20], ac am trothwy isafbris tybaco yn yr Alban[17], a oedd yn adlewyrchu'n agos yr hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd i brisiau alcohol pan gyflwynwyd isafbris uned ar gyfer alcohol yn yr Alban yn 2018[33].

3.4. Effeithiau ar Ddefnyddio Tybaco


Mae Ffigur 2 yn dangos amcanestyniad o effeithiau pob trothwy isafbris ar y defnydd o dybaco yn 2026, h.y. ym mlwyddyn gyntaf y polisi. Yn ôl y model, disgwylir i drothwy isaf o £0.60 y ffon, a fyddai'n codi pris yr holl dybaco rholio â llaw heb effeithio ar bris sigaréts a wneir mewn ffatri, arwain at ostyngiad uniongyrchol o 0.2% yng nghyffredinrwydd ysmygu (Tabl 5). Mae hyn yn cyfateb i 526 yn llai o bobl yn ysmygu ym mhoblogaeth Cymru rhwng 18 a 89 oed.

Rhagwelir y bydd yr effaith ar gyffredinrwydd ysmygu yn fwy amlwg yn y cwintelau MALlC mwyaf difreintiedig. Gellir priodoli'r gwahaniaeth cymdeithasol hwn yn yr effaith i gyfuniad o ffactorau: mae unigolion sy'n byw mewn amodau mwy difreintiedig yn tueddu i fod â chyfraddau ysmygu uwch, tebygolrwydd mwy o

ddefnyddio tybaco rholio â llaw, a defnydd uwch o gynhyrchion tybaco cymharol ratach.

Mae'r effaith ar gyffredinrwydd ysmygu yn dod yn fwy sylweddol wrth i'r trothwy isafbris gael ei godi. Er hynny, nid yw'r cynnydd hwn mewn effeithiolrwydd yn ymateb llinol syml i'r trothwy uwch. Mae maint yr effeithiolrwydd cynyddrannol yn dibynnu ar i ba raddau y mae'r trothwy'n cwmpasu'r dosbarthiad prisiau—mewn geiriau eraill, mae siâp y dosbarthiad prisiau yn chwarae rhan hanfodol yn effeithiolrwydd y polisi.

O ran trothwyon a osodir ar 70 ceiniog y ffon ac yn uwch, maent yn dylanwadu ar brisiau tybaco rholio â llaw a phrisiau'r sigaréts ffatri rhataf (Ffigur 1). Mewn achosion o'r fath, mae effaith y polisi ar gyffredinrwydd ysmygu yn dod yn gydadwaith mwy cymhleth rhwng effeithiau pris penodol ar wahân ar bob math o dybaco, gan gynhyrchu effeithiau mwy ar gyffredinrwydd ysmygu, yn enwedig gan y gall defnyddwyr deuol tybaco wedi'i rolio â llaw a sigaréts a wneir mewn ffatri roi'r gorau i ysmygu.



Ffigur 2. Dadansoddiad Achos Sylfaenol: Effeithiau wedi'u modelu ar gyffredinrwydd ysmygu yn 2026, blwyddyn gyntaf cyflwyno polisi, o'i gymharu â'r rheolaeth. Cyflwynir y niferoedd hyn hefyd yn Tabl 5.

Tabl 5. Effeithiau wedi'u modelu ar gyffredinrwydd ysmygu yn 2026, blwyddyn gyntaf cyflwyno polisi, o'i gymharu â'r rheolaeth. Cyflwynir y niferoedd hyn hefyd yn Ffigur 2.


	Pob person sy'n ysmygu	MALlC C1 (lleiaf difreintiedig)	MALlC C2	MALlC C3	MALlC C4	MALlC C5 (mwyaf difreintiedig)
Cyffredinrwydd ysmygu (%) ar y cychwyn	10.7%	4.7%	7.3%	12.2%	12.4%	17.1%
Nifer y bobl sy'n ysmygu ar y cychwyn	263,219	22,446	35,950	65,227	59,302	80,294
Trothwyon	Newid absoliwt yng nghyffredinrwydd ysmygu o'i gymharu â'r rheolaeth (h.y. newid pwynt canran yng nghyffredinrwydd ysmygu)					
£0.50	-0.1%	0.0%	-0.1%	-0.1%	-0.1%	-0.2%
£0.60	-0.2%	-0.1%	-0.1%	-0.2%	-0.3%	-0.5%
£0.70	-0.4%	-0.1%	-0.2%	-0.3%	-0.5%	-0.7%
£0.80	-0.6%	-0.2%	-0.3%	-0.6%	-0.7%	-1.1%

3.4.1. Dylanwad Elastigedd Traws-bris y Galw


Gall y cydadwaith rhwng prisiau tybaco rholio â llaw a defnydd sigaréts a wneir mewn ffatri effeithio ar y canlyniadau disgwyliedig, fel y disgrifir gan elastigedd traws-bris y galw rhwng y ddau gynnyrch. Er hynny, mae yna lefel uchel o ansicrwydd ynghylch yr elastigeddau traws-bris a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn. Mae'r amcangyfrifon yn dangos bod tybaco rholio â llaw a sigaréts a wneir mewn ffatri yn gyflenwol i'w gilydd, h.y. pan fydd pris un cynnyrch yn cynyddu, mae'r defnydd o dybaco rholio â llaw a sigaréts a wneir mewn ffatri yn lleihau fel ei gilydd. Er hynny, mae'r lefel uchel o ansicrwydd hefyd yn gadael lle i'r posibilrwydd bod y ddau gynnyrch yn amnewidion i'w gilydd, h.y. mae cynnydd ym mhris un cynnyrch yn achosi i bobl newid i'r llall. Oherwydd yr ansicrwydd hwn, rydym yn gosod yr effeithiau traws-bris ar sero ar gyfer y dadansoddiad achos sylfaenol. Yma rydym yn cyflwyno canlyniadau dadansoddiad sensitifrwydd sy'n cymharu'r amcangyfrifon o'r effeithiau ar gyffredinrwydd ysmygu pan fyddwn yn cynnwys yr elastigeddau traws-bris fel y'u hamcangyfrifwyd gan Pryce et al.[26] yn ein hachos sylfaenol ni sy'n gosod yr elastigeddau hynny ar sero.

Mae Ffigur 3 yn dangos effeithiau uniongyrchol isafbris tybaco o £0.60 yn 2026 wedi'u modelu ar gyffredinrwydd ysmygu, gan gymharu canlyniadau'r achos sylfaenol (dim effeithiau traws-bris) â dadansoddiad sensitifrwydd lle mae'r amcangyfrifon o'r elastigeddau traws-bris a gyflwynir ynTabl2 ac yn

Tabl3 yn cael eu rhoi ar waith. Mae canlyniadau'r dadansoddiad sensitifrwydd yn dangos bod tybiaeth yr achos sylfaenol o elastigeddau traws-bris o sero yn creu amcangyfrif mwy ceidwadol o effaith isafbris ar gyffredinrwydd ysmygu. Yr amcangyfrif o effaith isafbris o £0.60 ar gyffredinrwydd ysmygu yw gostyngiad o ryw 0.2 pwynt canran yn yr achos sylfaenol, bron hanner y gostyngiad a amcangyfrifir o 0.4 pwynt canran pan gynhwysir effeithiau traws-bris. Mae'r canfyddiad hwn yn berthnasol ar draws pob cwintel MALlC, gyda meintiau tebyg o wahaniaeth rhwng y ddau senario. Cyflwynir canlyniadau llawn y dadansoddiadau sensitifrwydd sy'n caniatáu ar gyfer effeithiau traws-bris rhwng y ddau gynnyrch yn Ffigur 4 a Tabl 6.



Ffigur 3. Amcangyfrif o effaith isafbris o £0.60 am dybaco ar gyffredinrwydd ysmygu yn 2026 gyda a heb elastigeddau traws-bris rhwng sigaréts a wneir mewn ffatri a thybaco wedi'i rolio â llaw.



Ffigur 4. Dadansoddiad sensitifrwydd os yw effeithiau elastigeddau traws-bris yn cael eu cynnwys: Effeithiau wedi'u modelu ar gyffredinrwydd ysmygu yn 2026, blwyddyn gyntaf cyflwyno'r polisi, o'i gymharu â dim isafbris. Mae'r amcangyfrifon hyn yn cynnwys elastigeddau traws-bris y galw rhwng sigaréts a wneir mewn ffatri a thybaco wedi'i rolio â llaw. Cyflwynir y niferoedd hyn hefyd ynTabl 6.

Tabl 6. Effeithiau wedi'u modelu ar gyffredinrwydd ysmygu yn 2026, blwyddyn gyntaf cyflwyno polisi, o'i gymharu â'r rheolaeth. Mae'r amcangyfrifon hyn yn cynnwys elastigeddau traws-bris y galw rhwng sigaréts a wneir mewn ffatri a thybaco wedi'i rolio â llaw. Cyflwynir y niferoedd hyn hefyd yn Ffigur 4

	Pob person sy'n ysmygu	MALlC C1 (lleiaf difreintiedig)	MALlC C2	MALlC C3	MALlC C4	MALlC C5 (mwyaf difreintiedig)
Cyffredinrwydd ysmygu (%) ar y cychwyn	10.6%	4.6%	7.3%	12.1%	12.3%	16.9%
Nifer y bobl sy'n ysmygu ar y cychwyn	260,938	22,197	35,571	64,699	58,874	79,597
Trothwyon	Newid absoliwt yng nghyffredinrwydd ysmygu o'i gymharu â'r rheolaeth (h.y. newid pwynt canran yng nghyffredinrwydd ysmygu)					
£0.50	-0.2%	-0.1%	-0.1%	-0.2%	-0.2%	-0.4%
£0.60	-0.4%	-0.2%	-0.3%	-0.4%	-0.5%	-0.7%
£0.70	-0.7%	-0.3%	-0.4%	-0.7%	-0.8%	-1.2%
£0.80	-1.1%	-0.5%	-0.7%	-1.1%	-1.3%	-1.8%

3.5. Effeithiau ar Gyffredinrwydd Ysmygu Hirdymor

Asesodd y model hefyd effaith pob trothwy pris ar dueddiadau tymor hirach yng nghyffredinrwydd ysmygu, gan gynnwys cyffredinrwydd disgwyliedig ysmygu yn 2030. Mae

Tabl 7 yn dangos effeithiau wedi'u modelu y trothwyon isafbris ar gyffredinrwydd ysmygu erbyn 2030, sy'n cyfateb i'r canlyniadau ar gyfer 2026 a gyflwynwyd yn Tabl 5. Yn yr amcanestyniadau hirdymor hyn, mae tuedd gyson o ostyngiad yn effaith cyflwyniad cychwynnol y trothwy isafbris ar gyffredinrwydd ysmygu. Er enghraifft, rhagwelir y bydd effaith trothwy isaf o £0.60, a arweiniodd i ddechrau at ostyngiad o 0.2% yng nghyffredinrwydd ysmygu yn 2026 o'i gymharu â'r senario rheolaeth o ddim isafbris, yn gostwng i ostyngiad o 0.1% (216 yn llai o ysmygwyr) erbyn 2030.

Tabl 7. Effeithiau wedi'u modelu ar gyffredinrwydd ysmygu yn 2030, o'i gymharu â'r rheolaeth.


	Pob person sy'n ysmygu	MALIC C1 (lleiaf difreintiedig)	MALIC C2	MALIC C3	MALIC C4	MALIC C5 (mwyaf difreintiedig)
Cyffredinrwydd ysmygu (%) ar y cychwyn	8.8%	3.0%	5.7%	10.8%	10.3%	13.9%
Nifer y bobl sy'n ysmygu ar y cychwyn	215,678	14,021	26,917	58,436	49,095	67,209
Trothwyon	Newid absoliwt yng nghyffredinrwydd ysmygu o'i gymharu â'r rheolaeth (h.y. newid pwynt canran yng nghyffredinrwydd ysmygu)					
£0.50	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	-0.1%
£0.60	-0.1%	0.0%	-0.1%	-0.1%	-0.1%	-0.2%
£0.70	-0.2%	0.0%	-0.1%	-0.1%	-0.2%	-0.3%
£0.80	-0.2%	-0.1%	-0.1%	-0.2%	-0.3%	-0.5%

Rhagwelir y bydd y trothwy uchaf o £0.80 yn arwain at ostyngiad o 0.2% yng nghyffredinrwydd ysmygu erbyn 2030 (431 yn llai o bobl sy'n ysmygu), gan adael Cymru ar gyffredinrwydd ysmygu o 8.6% o hyd. Byddai hyn yn gadael Cymru yn brin

o'r targed o 5%, a chyda chyffredinrwydd yn y cwintel MALlC mwyaf difreintiedig yn dal dros 10%.

Mae Ffigur 5 yn dangos y gostyngiad yn effeithiolrwydd y polisi dros amser. Mae'r effaith ostyngol hon ar gyffredinrwydd ysmygu dros flynyddoedd olynol yn digwydd oherwydd bod y model yn tybio bod effaith y polisi wedi'i chanolbwyntio yn y flwyddyn y caiff ei gyflwyno. Er bod y model yn ymgorffori effeithiau parhaus dros amser ar gyfraddau ysmygu ar gyfer unigolion 18 oed, yn ogystal â faint o dybaco a ddefnyddir gan bobl sy'n ysmygu, mae'n tybio nad yw'r tebygolrwyddau sylfaenol o drawsnewid cyflwr ysmygu sy'n gysylltiedig â dechrau ysmygu, rhoi'r gorau iddi a llithro'n ôl yn cael eu heffeithio gan y polisi. O ganlyniad, mae'r amcangyfrif o effaith polisi y model yn lleihau'n raddol yn y blynyddoedd yn dilyn ei gyflwyno, oherwydd llithro'n ôl ymhlith pobl sy'n rhoi'r gorau i ysmygu oherwydd y polisi a throsiant y cenedlaethau o fewn y model.

Rheswm arall dros effeithiolrwydd gostyngol y polisi yw natur yr uwchraddio. Mae'r senarios a fodelwyd yn tybio y bydd yr isafbris yn cael ei uwchraddio yn unol â chwyddiant RPI bob blwyddyn, Er hynny, tybir y bydd y fformiwla codi treth tybaco o RPI + 2% yn parhau drwy gydol oes y model. Byddai hyn yn golygu bod prisiau tybaco yn cynyddu'n gyflymach na'r trothwy isafbris ac y byddai'n rhaid i unrhyw bolisi isafbris o leiaf gadw i fyny â phrisiau tybaco er mwyn parhau i fod yn effeithiol yn y tymor hir, fel y cafwyd mewn dadansoddiadau blaenorol yng nghyd-destun alcohol[19, 20].




Ffigur 5. Amcangyfrif o'r newid yn effeithiau'r polisi cychwynnol ar gyffredinrwydd ysmygu dros y blynyddoedd ers y newid polisi cychwynnol. Nid ydynt yn cynnwys yr effeithiau ychwanegol o dybio ymateb parhaus gan y defnyddwyr, h.y. o flwyddyn i flwyddyn, i bolisi isafbris a gyflwynwyd yn 2026.

3.6. Effeithiau ar Wariant Defnyddwyr

Pan fydd prisiau tybaco yn codi i gyrraedd trothwy penodol, bydd rhai pobl sy'n ysmygu yn rhoi'r gorau iddi tra bydd eraill yn lleihau. Bydd y rhai nad ydynt yn lleihau eu defnydd ddigon yn talu mwy yn y pen draw. Dadansoddwyd y cynnydd disgwyliedig mewn gwariant wythnosol ar dybaco ar gyfer pobl sy'n ysmygu sy'n parhau i ysmygu yn ystod blwyddyn gyntaf y polisi. Nid yw pobl sy'n rhoi'r gorau i ysmygu ac felly'n lleihau eu gwariant i £0 wedi'u cynnwys yn yr amcangyfrif hwn o'r newid mewn gwariant cyfartalog, ond fe fydd colli eu gwariant nhw yn cyfrannu at refeniw is i fanwerthwyr tybaco a threth i Lywodraeth y DU.

Mae cynyddu'r trothwy isafbris yn golygu y bydd pobl sy'n parhau i ysmygu yn gwario mwy. Er enghraifft, byddai trothwy o £0.60 yn codi'r gwariant wythnosol cyfartalog ar

dybaco £5.26 (Tabl 8, Ffigur 6). Roedd y cynnydd hwn ychydig yn fwy amlwg yn achos pobl sy'n ysmygu yn y cwintel MALlC mwyaf difreintiedig (£6.15), sydd fel arfer yn prynu cynhyrchion tybaco rhatach.



Ffigur 6. Newid wedi'i fodelu yn y gwariant wythnosol cyfartalog fesul person sy'n parhau i ysmygu yn 2026. Cyflwynir y ffigurau hyn hefyd yn Tabl 8.

Tabl 8. Effeithiau wedi'u modelu ar wariant cyfartalog fesul ysmygwr fesul wythnos. Nid yw'r effeithiau hyn yn cynnwys elastigeddau traws-bris y galw. Cyflwynir y niferoedd hyn hefyd yn Ffigur 6.

	Pob person sy'n ysmygu	MALlC C1 (lleiaf difreintiedig)	MALlC C2	MALlC C3	MALlC C4	MALlC C5 (mwyaf difreintiedig)
Gwariant cymedrig fesul ysmygwr yr wythnos ar y cychwyn	£40.64	£46.43	£40.81	£42.67	£38.71	£38.73
Trothwyon	**Newid absoliwt mewn gwariant (£) o'i gymharu â'r rheolaeth**					
£0.50	£2.92	£2.96	£3.09	£2.03	£3.05	£3.46
£0.60	£5.26	£5.45	£5.55	£3.67	£5.52	£6.15
£0.70	£7.55	£7.94	£7.88	£5.53	£7.88	£8.68
£0.80	£9.81	£10.40	£10.05	£7.56	£10.17	£11.09

3.7. Effeithiau ar Iechyd


Gan ddefnyddio'r model achos sylfaenol, nad yw'n ystyried effeithiau traws-bris rhwng tybaco rholio â llaw a sigaréts a wneir mewn ffatri, amcanestynnwyd effeithiau posibl pob trothwy isafbris ar newidiadau mewn niwed i iechyd o ganlyniad i'r gostyngiad yng nghyffredinrwydd ysmygu a gyflwynwyd yn yr adrannau blaenorol. Mae'r canlyniadau iechyd a fodelwyd yn cynnwys blynyddoedd o fywyd a gollwyd oherwydd marwolaethau, derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig â thybaco, a'r costau cysylltiedig â'r derbyniadau hynny i'r ysbyty. Darparwyd y cyfraddau marwolaethau a'r cyfraddau derbyn i'r ysbyty gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Amcangyfrifwyd costau uned derbyniadau i'r ysbyty o ddata Ystadegau Episodau Ysbytai Lloegr ar gyfer 2016/17 ac fe'u haddaswyd ar gyfer chwyddiant costau i brisiau 2022/23 gan ddefnyddio mynegai chwyddiant costau'r GIG. Cyflwynir newidiadau yn y canlyniadau iechyd fel gwahaniaethau cronnol rhwng y gangen ymyrraeth a'r gangen reoli dros gyfnod o 20 mlynedd, o 2027 i 2046. Dewiswyd y cyfnod amser hwn gan ei fod yn caniatáu i effaith lawn newidiadau mewn ymddygiad ysmygu yn 2026 droi'n newidiadau yn y risgiau o farwolaeth a derbyn i'r ysbyty.

Mae Ffigur 7 /Tabl 9 yn dangos yr effaith ar gyfanswm y blynyddoedd o fywyd a gollwyd oherwydd marwolaeth gynamserol oherwydd ysmygu tybaco rhwng 2027-2046. Rhagwelir y bydd trothwy isaf o £0.60 yn cyfrannu 2,956 o flynyddoedd ychwanegol o fywyd i boblogaeth Cymru, wedi'i gyfrifo'n gronnol o'i gymharu â'r gangen reolaeth hyd at 2046, gydag effaith fwy sylweddol ar flynyddoedd a gollwyd i farwolaeth oherwydd marwolaeth unigolion sy'n byw yn y cwintelau mwyaf difreintiedig o dan MALlC (554 o flynyddoedd a gollwyd wedi'u hosgoi) o'i gymharu â'r cwintel lleiaf difreintiedig (42 flynyddoedd a gollwyd wedi'u hosgoi).

Mae Ffigur 8 /Tabl 10 yn dangos yr effeithiau cyfatebol ar dderbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig â thybaco. Mae'r model yn awgrymu y gallai trothwy isaf o £0.60 arwain at

oddeutu 859 yn llai o dderbyniadau i'r ysbyty erbyn 2046. Byddai hyn yn arwain at arbediad cost cronnol cyffredinol i'r GIG o ryw £0.429 miliwn dros 5 mlynedd a £1.484 miliwn erbyn 2046 (Ffigur 9 /Tabl 11).

Pe baem yn tybio effaith hirdymor (gweler Adran 3.5), mae'n debygol y byddai'r effeithiau ar iechyd hefyd yn cynyddu mewn modd tebyg i'r hyn a amcangyfrifwyd ar gyfer cyffredinrwydd ysmygu, a allai ddyblu yn fras.




Ffigur 7. Newid cronnol yn y blynyddoedd bywyd a gollwyd oherwydd marwolaeth gynamserol rhwng 2027-2046.

Tabl 9. Newid cronnol yn y blynyddoedd bywyd a gollwyd oherwydd marwolaeth gynamserol rhwng 2027-2046.

	Pob person sy'n ysmygu	MALlC C1 (lleiaf difreintiedig)	MALlC C2	MALlC C3	MALlC C4	MALlC C5 (mwyaf difreintiedig)
Trothwyon	Newid absoliwt mewn blynyddoedd o fywyd a gollwyd cronnol 2027-2046					
£0.50	-1,158	-42	-177	-65	-321	-554
£0.60	-2,956	-166	-374	-398	-898	-1,119
£0.70	-4,983	-227	-647	-965	-1,469	-1,676


£0.80	-8,808	-324	-837	-1,460	-2,330	-3,857



Ffigur 8. Newid cronnol mewn derbyniadau ysbyty rhwng 2027-2046.

Tabl 10. Newid cronnol mewn derbyniadau ysbyty rhwng 2027-2046

	Pob person sy'n ysmygu	MALlC C1 (lleiaf difreintiedig)	MALlC C2	MALlC C3	MALlC C4	MALlC C5 (mwyaf difreintiedig)
Trothwyon	Newid absoliwt yng nghyfanswm cronnol y derbyniadau ysbyty 2027-2046					
£0.50	-362	-21	-56	-10	-97	-179
£0.60	-929	-70	-119	-128	-275	-336
£0.70	-1,628	-98	-218	-327	-488	-496
£0.80	-2,832	-144	-285	-513	-779	-1,110



Ffigur 9. Newid cronnol yng nghostau derbyniadau ysbyty'r GIG dros gyfnodau amser o 5, 10 ac 20 mlynedd

Tabl 11. Newid cronnol yng nghostau derbyniadau ysbyty'r GIG dros gyfnodau amser o 5, 10 ac 20 mlynedd.


	Cronnol 5 mlynedd	Cronnol 10 mlynedd	Cronnol 20 mlynedd
Trothwyon	Newid absoliwt yng nghyfanswm costau derbyniadau ysbyty cronnol 2027-2046 (£m)		
£0.50	-£206,473	-£420,501	-£591,546
£0.60	-£429,309	-£905,220	-£1,483,857
£0.70	-£765,882	-£1,712,093	-£2,656,895
£0.80	-£1,226,044	-£2,833,988	-£4,746,524

3.8. Effeithiau ar Refeniw Treth y Llywodraeth a Refeniw Manwerthu

Yn olaf, rydym yn adrodd ar amcangyfrifon o effeithiau'r trothwyon isafbris ar ganlyniadau economaidd o ran y refeniw a enillir gan fanwerthwyr tybaco (ar ôl talu tollau cartref tybaco a TAW), a refeniw treth i Lywodraeth y DU o dollau tybaco a TAW o werthiannau tybaco yng Nghymru.

Mae Ffigur 10 a Tabl 12 dangos y byddai gosod isafbris ar dybaco yn cynyddu refeniw i'r diwydiant tybaco ac yn costio arian i'r llywodraeth ganolog o ran refeniw is. Y rheswm am hyn yw bod y cynnydd mewn prisiau a achosir gan osod yr isafbris yn gymharol fwy na'r gostyngiad yn y defnydd o dybaco oherwydd elastigeddau pris bach yn y galw am dybaco (Tabl2,

Tabl3). O ganlyniad, mae gwariant cyffredinol ar dybaco yn cynyddu ac mae'r llywodraeth yn colli refeniw treth o ganlyniad i ostyngiad yn y defnydd tra bo'r manwerthwyr yn ennill mwy o refeniw o'r prisiau uwch. Yn achos trothwy isafbris o £0.60 fesul ffon, disgwylir i refeniw manwerthwyr gynyddu £306 miliwn dros bum mlynedd, tra disgwylir i dderbyniadau treth o doll tybaco a TAW gael eu lleihau tua £34 miliwn dros yr un cyfnod.



Ffigur 10. Newidiadau cronnol mewn refeniw net i fanwerthwyr tybaco (heb gynnwys treth) a derbyniadau treth y llywodraeth o doll tybaco + TAW dros bum mlynedd.


Tabl 12. Newidiadau cronnol mewn refeniw net i fanwerthwyr tybaco (heb gynnwys treth) a derbyniadau treth y llywodraeth o doll tybaco + TAW dros bum mlynedd.

	Refeniw net i fanwerthwyr	Derbyniadau treth tybaco + TAW i'r llywodraeth
Trothwyon	Newid absoliwt mewn trethi cronnol i'r llywodraeth a refeniw manwerthwyr dros 5 mlynedd 2026-2030	
£0.50	£158,094,987	-£14,946,262
£0.60	£306,035,657	-£33,873,886
£0.70	£451,520,790	-£71,812,294
£0.80	£614,180,976	-£133,538,304

3.9. Pwysigrwydd Uwchraddio i Fynd i'r Afael â Chwyddiant

Mae'r dadansoddiad a gyflwynwyd hyd yn hyn wedi tybio, unwaith y bydd yr isafbris am dybaco wedi'i roi ar waith, y caiff y trothwy ei uwchraddio bob blwyddyn yn unol â chwyddiant RPI h.y. ei gadw'n gyson mewn termau real. O gofio bod treth tybaco yn cynyddu'n flynyddol yn ôl fformiwla codi treth o RPI + 2%, byddai prisiau'n codi'n gyflymach na throthwy isafbris a fyddai'n cael ei uwchraddio yn ôl yr RPI yn unig. Yn yr adran hon, rydym yn dangos y budd posibl o gynyddu'r isafbris yn unol â'r RPI plws y

fformiwla codi treth ar dybaco, yn hytrach nag yn unol â'r RPI yn unig. I wneud hynny, modelwyd senario polisi ychwanegol, gan gynyddu'r trothwy o £0.60 gan RPI + 2% yn flynyddol am gyfnod y model, yn unol â'r fformiwla codi treth tybaco, o'i gymharu â'n dadansoddiad achos sylfaenol a gynyddodd y trothwy gan RPI bob blwyddyn. Mae Ffigur 11 yn dangos y gyfres amser o drothwy'r isafbris ar gyfer y ddau senario uwchraddio wedi'i chymhwyso at y polisi isafbris o £0.60.




Ffigur 11. Trothwyon isafbris 2026-2046 o dan dybiaethau uwchraddio gwahanol

Mae canlyniadau'r dadansoddiad sensitifrwydd wedi'u crynhoi yn Ffigur 12, sy'n dangos cyfres amser effaith polisi'r ddau senario uwchraddio ar (i) pris cymedrig

tybaco wedi'i rolio â llaw, (ii) cyffredinrwydd ysmygu drwyddi draw, (iii) blynyddoedd bywyd a gollwyd (YLLs) cronnol oherwydd marwolaeth gynamserol, a (iv) nifer y derbyniadau i'r ysbyty.

Mae panel chwith uchaf y ffigur yn dangos y gwahaniaeth absoliwt dros amser ym mhris cymedrig tybaco rholio â llaw rhwng y senario isafbris o £0.60 a'r senario rheolaeth, ar wahân ar gyfer y ddau senario uwchraddio. Yn yr achos sylfaenol, mae codi'r isafbris i £0.60 y ffon yn cynyddu pris cyfartalog tybaco rholio â llaw tuag 20c y ffon. Yn yr achos sylfaenol, lle mae'r isafbris yn cael ei uwchraddio yn ôl chwyddiant RPI, mae'r gwahaniaeth pris hwn yn lleihau dros amser wrth i bris tybaco rholio â llaw gynyddu'n gyflymach na'r trothwy oherwydd y fformiwla codi treth, gan erydu effeithiolrwydd y trothwy isafbris. Erbyn 2046, bydd tybaco wedi'i rolio â llaw yn dal yn ddrutach nag y byddai pe na bai isafbris wedi'i osod o gwbl, ond amcangyfrifir y bydd y gwahaniaeth yn lleihau o 20c i 6c y ffon. Mae'r gwrthwyneb yn wir pan fydd y trothwy isafbris yn cael ei gynyddu fwy na chyfradd chwyddiant bob blwyddyn, gyda'r gwahaniaeth pris yn cynyddu dros amser wrth i'r trothwy isafbris gael ei gynyddu yn ôl swm mwy yn flynyddol.

Gellir gweld effaith hyn ar ysmygu a chanlyniadau iechyd yn y paneli eraill. Mae'r panel dde uchaf yn dangos cyfres amser y gwahaniaeth yng nghyffredinrwydd ysmygu rhwng yr ymyriad a'r senario rheolaeth ar gyfer y ddau senario uwchraddio. Yn y naill achos a'r llall mae'r effaith ar gyffredinrwydd yn lleihau'n raddol dros amser, ond gyda mwy o uwchraddio blynyddol erbyn 2046 mae'r gwrthdroad yn fwy graddol. Mae cyffredinrwydd ysmygu yn y gangen ymyrraeth yn dal tua 0.25% yn is o ran cyffredinrwydd ysmygu o'i gymharu â'r grŵp rheolaeth, tra bo effaith y polisi wedi diflannu yn yr achos sylfaenol.



Ffigur 12. Amcangyfrif o effaith polisi isafbris o £0.60 am dybaco ar brisiau tybaco wedi'i rolio â llaw, cyffredinrwydd ysmygu, blynyddoedd o fywyd a gollwyd, a derbyniadau i'r ysbyty o dan wahanol senarios uwchraddio

Mae effeithiau gwahanol y ddau senario uwchraddio ar gyffredinrwydd yn arwain at effeithiau cymesur ar ganlyniadau iechyd, gyda gostyngiadau cronnol mwy mewn niwed i iechyd pan gaiff y trothwy isafbris ei uwchraddio yn ôl RPI + 2%. Amcangyfrifir y bydd hyn yn arwain at atal tua 500 o flynyddoedd ychwanegol o fywyd a gollwyd (16.6% ychwanegol o'i gymharu ag uwchraddio yn ôl RPI yn unig) erbyn 2046, ac atal

300 o dderbyniadau ysbyty ychwanegol dros yr un cyfnod (33.3% yn fwy nag wrth uwchraddio yn ôl RPI).

4. Trafodaeth

4.1. Crynodeb o'r Canlyniadau

Mae'r adroddiad hwn wedi amlinellu effeithiau posibl gweithredu lefelau amrywiol o isafbris ar gyfer tybaco ar gyffredinrwydd ysmygu ac iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Byddai isafbris o 60c fesul ffon o dybaco yn codi pris yr holl dybaco sy'n cael ei rolio â llaw heb effeithio ar bris sigaréts a wneir mewn ffatri. Mae ein canfyddiadau'n dangos y byddai trothwy wedi'i osod ar y lefel hon yn lleihau cyffredinrwydd ysmygu 0.2%, gan leihau nifer y bobl sy'n ysmygu o ryw 526. Byddai hyn yn cynyddu gwariant ar

dybaco gan y rhai sy'n parhau i ysmygu £5.26 ar gyfartaledd oherwydd prisiau uwch. Byddai effeithiau iechyd tymor hirach yn cynnwys gostyngiad o -2,956 yn nifer y blynyddoedd o fywyd a gollwyd oherwydd marwolaeth gynamserol rhwng 2027 a 2046, 929 yn llai o dderbyniadau i'r ysbyty, a gostyngiad cyfatebol yng nghostau derbyniadau i'r ysbyty i'r GIG o £1.48 miliwn. Byddai trothwy isafbris uwch yn arwain at effeithiau mwy.

Mae'n debyg bod yr amcangyfrif o'r effeithiau a gyflwynir yma yn geidwadol, gan ddefnyddio elastigeddau pris galw sy'n hepgor unrhyw effeithiau traws-bris gan fod yna fesur helaeth o ansicrwydd ystadegol ynghylch yr amcangyfrifon elastigedd traws-bris. Byddai cynnwys yr effeithiau traws-bris yn cynyddu'r amcangyfrifon o effeithiau isafbris ar gyffredinrwydd, ac ar iechyd a'r canlyniadau a gyflwynir yma, gan fod yr amcangyfrifon o'r elastigeddau yn awgrymu bod y ddau gynnyrch tybaco yn gyflenwol i'w gilydd[26]. Mae'r canlyniadau a gyflwynir yma yn gyson â gwaith modelu blaenorol a wnaed yng nghyd-destun yr Alban[16, 17].

Asesir bod gosod isafbris ar dybaco yn ddull effeithiol o gynyddu pris y tybaco rhataf sydd ar gael yn gyfreithlon. Amcangyfrifir bod prisiau uwch am dybaco yn arwain at ostyngiad yng nghyffredinrwydd ysmygu a chanlyniadau gwell mewn iechyd hirdymor. Amcangyfrifir y bydd isafbris o £0.60 yn lleihau cyffredinrwydd ysmygu 0.2%, yn lleihau nifer y blynyddoedd o fywyd a gollir oherwydd marwolaeth gynamserol o 2,956 dros 20 mlynedd, ac yn lleihau nifer y derbyniadau i'r ysbyty oherwydd cyflyrau sy'n gysylltiedig â thybaco o 929 dros yr un cyfnod. Byddai effaith y polisi hwn yn fwy mewn ardaloedd â lefelau uwch o amddifadedd, oherwydd y patrymau presennol o ran defnyddio tybaco a dewisiadau gwario, ac felly byddai'r polisi hwn yn lleihau anghydraddoldebau iechyd yn ogystal â gwella iechyd y boblogaeth. At hynny, byddai'r effeithiau ar ddefnyddio tybaco ac iechyd y cyhoedd yn cynyddu gyda throthwyon isafbris uwch. Mae uwchraddio trothwy'r isafbris yn gyson yn bwysig i gynnal effeithiolrwydd y trothwy, a gall uwchraddio yn ôl RPI+2% o'i gymharu ag uwchraddio yn unol ag RPI arwain at gynnydd sylweddol yn y gwelliannau mewn iechyd y cyhoedd dros y tymor hir. Gan y byddai isafbris yn bolisi a gâi ei roi ar waith ochr yn ochr â thollau tybaco'r DU, nid yn eu disodli, mae'n bwysig sicrhau bod unrhyw

isafbris yn dal yn effeithiol drwy gynyddu'r trothwy yn unol â phrisiau tybaco cynyddol o ganlyniad i'r fformiwla codi treth.

Er hynny, byddai trothwyon isafswm uwch yn arwain at fwy o wariant ar dybaco gan ddefnyddwyr nad ydynt yn rhoi'r gorau i ysmygu o ganlyniad i'r polisi, gan gynyddu'r baich ariannol o bosibl ar y rhai sy'n parhau i ysmygu[34]. Amcangyfrifir y bydd y gwariant cynyddol cyffredinol hwn gan ddefnyddwyr yn arwain at refeniw mwy i'r diwydiant tybaco o werthiannau cynnyrch a refeniw is i Lywodraeth y DU o doll gartref a TAW ar gynhyrchion tybaco.

Ystyriaeth bwysig wrth roi isafbris ar waith yw uwchraddio effeithiol. Roedd y dadansoddiad a geir yn yr adroddiad hwn yn tybio y byddai'r trothwy isafbris, ar ôl ei roi ar waith, yn cael ei uwchraddio yn unol â chwyddiant RPI bob blwyddyn wedyn fel nad yw gwerth y trothwy yn gostwng mewn termau real, a fyddai'n erydu effeithiolrwydd y polisi. Gwelodd dadansoddiad diweddar o isafbris uned o alcohol yng Nghymru, oherwydd effeithiau chwyddiant, y byddai'n rhaid i isafswm pris yr uned o alcohol gynyddu o £0.50 i 65c yn 2026 dim ond er mwyn aros mor effeithiol yn 2026 ag yr oedd pan gafodd ei roi ar waith yn 2020[19]. Mae'r ystyriaeth hon hyd yn oed yn bwysicach yng nghyd-destun isafbris ar gyfer tybaco, gyda'r fformiwla codi treth blynyddol o RPI + 2% bob blwyddyn yn rhoi mwy o bwysau ar i fyny ar brisiau tybaco nag a geir yng nghyd-destun alcohol, lle nad yw toll gartref yn destun fformiwla codi treth awtomatig ac yn aml mae'r cyfraddau treth a gymhwysir at alcohol yn cael eu rhewi. Er mwyn parhau'n effeithiol dros amser, byddai'n rhaid uwchraddio unrhyw isafbris ar gyfer tybaco yn gyson yn ôl o leiaf y fformiwla codi treth tybaco, ac yn arbennig yng Nghyllidebau diweddar Llywodraeth y DU mae'r doll ar dybaco wedi'i rolio â llaw wedi cynyddu lawer mwy na'r RPI + 2%.

4.2. Dewisiadau Polisi Amgen yn Lle Isafbris

Argymhellodd adolygiad Kahn 2022[35], asesiad annibynnol o bolisi tybaco a gomisiynwyd gan Lywodraeth y DU, gynnydd untro o 30% yn nholl gartref tybaco, a fyddai'n llawer mwy nag unrhyw gynnydd blaenorol yn y doll. Er nad yw'r adroddiad

presennol wedi ystyried newidiadau mewn polisi treth, dangosodd y dadansoddiad ar gyfer yr Alban y byddai hyn yn cyfateb yn fras i drothwy isafbris o £0.80 y ffon, o ran effeithiau ar ganlyniadau iechyd[16].

Bernir bod isafbris ar dybaco yma yn cydategu codiadau treth tybaco parhaus yn y DU yn hytrach nag fel dewis arall yn lle treth. At ei gilydd, nod y polisïau hyn yw codi pris pob math o dybaco a chulhau'r amrediad prisiau yr un pryd, h.y. gweithredu'n gryfaf ar y tybaco rhataf sydd ar gael yn gyfreithlon. Tybaco rholio a llaw yw'r tybaco rhataf sydd ar gael yn gyfreithlon. Gan hynny, mae polisi treth diweddar yn y DU wedi defnyddio fformiwla uwch ar dybaco rholio â llaw na sigaréts a wneir mewn ffatri. Er hynny, y broblem gyda strategaethau sy'n seiliedig ar dreth yw y gall y diwydiant barhau i gynnal set gymharol rad o gynhyrchion tybaco, y mae'n ei defnyddio fel strategaeth farchnata ar gyfer defnyddwyr sy'n sensitif i brisiau. Felly, mae angen rhagor o opsiynau wedi'u targedu i leihau argaeledd y cynhyrchion rhataf. Ymhlith yr opsiynau hyn, mae dau bolisi yn sefyll allan fel rhai sydd ag effeithiau tebyg i osod isafbris.

Mae'r opsiwn cyntaf yn cynnwys ehangu'r Isafswm Toll Gartref (MET) bresennol (gweler Adran 1.1) i gynnwys Treth Ar Werth o fewn cyfanswm y dreth y mae'r trothwy treth isaf yn gymwys iddo. Gallai'r fersiwn estynedig hon ganiatáu i'r MET weithredu ar bris tybaco rholio â llaw (dim ond ar bris y sigaréts rhataf a wneir mewn ffatri y mae'r MET yn gweithredu ar hyn o bryd) ac fe gyfeiriwyd ato fel y "Minimum Consumption Tax" yn ymgynghoriad y llywodraeth ar y MET[36]. Dim ond pan fydd gan gynhyrchion gydran *ad valorem* y mae'r strwythurau isafswm treth hyn, sy'n cwmpasu MET a MCT, yn effeithiol, sy'n golygu bod trethi'n cael eu cymhwyso yn gymesur â phris y cynnyrch naill ai cyn neu ar ôl ychwanegu toll gartref. Mae'r strwythurau treth *ad valorem* hyn yn rhoi cymhelliant i'r diwydiant tybaco gynyddu eu helw o werthu cynhyrchion er mwyn cyrraedd y trothwy treth gofynnol. Ar hyn o bryd dim ond ar gyfer sigaréts a wneir mewn ffatri y mae'r MET ar waith, heb unrhyw dreth gyfatebol ar dybaco rholio â llaw. At hynny, er bod hyn wedi gweithio i ddechrau ar ôl i'r MET gael ei roi ar waith, mae pryderon y gallai'r diwydiant ddewis talu'r MET ar gynhyrchion am ei fod yn gwerthfawrogi'r gallu i gadw'r cynhyrchion tybaco rhataf yn fforddiadwy.

Mae'r ail opsiwn yn cynnwys cyflwyno cap pris cyfanwerthu ochr yn ochr â chynnydd sylweddol mewn toll gartref[37-39]. Mae'r cap pris, sy'n gweithredu fel terfyn uchaf ar brisiau cyfanwerthu, yn cyfyngu ar yr elw y gall y diwydiant ei gynhyrchu o werthu cynhyrchion tybaco drutach, yn debyg i ardoll diwydiant 'y llygrwr sy'n talu'. Ar yr un pryd, gellir graddoli'r cynnydd yn y doll gartref i atal unrhyw gynhyrchion tybaco rhag dod yn rhatach oherwydd y cap pris wrth godi prisiau pob cynnyrch tybaco. Byddai hyn yn arwain at gynnydd sylweddol mewn prisiau cyffredinol, cynnydd yn refeniw Llywodraeth y DU, a chyfyngiad bwriadol ar elw'r diwydiant. At hynny, mae'n cyfyngu ar y posibilrwydd o amrywio prisiau yn y farchnad dybaco, a fyddai'n cyfyngu ar allu'r diwydiant tybaco i ddefnyddio pris fel offeryn marchnata ac i ddefnyddio tactegau prisio i liniaru effeithiau cynnydd mewn trethi. Drwy wrthbwyso gostyngiadau mewn prisiau cyfanwerthu gyda chynnydd mewn toll gartref, byddai elw'r diwydiant a oedd gynt yn fawr yn troi'n gynnydd yn refeniw treth Llywodraeth y DU[40]. Awgrymodd ymchwiliad blaenorol i'r posibiliad hwn gan ddefnyddio gwybodaeth cyfrifon cwmnïau yn y DU hyd at 2010 y gallai hyn fod tua £500 miliwn y flwyddyn[37], er bod yr amcangyfrifon hynny bellach wedi mynd yn hen. Nid yn unig y gallai refeniw treth ychwanegol o'r fath i Lywodraeth y DU fod o fudd wrth ariannu mesurau iechyd cyhoeddus ehangach, ond byddai'r gostyngiad cynhenid ym mhroffidioldeb y diwydiant hefyd yn newid cymhellion y diwydiant i barhau â'r epidemig tybaco yn sylweddol. Er hynny, mae'n dal yn aneglur sut y byddai strategaeth polisi cap prisiau yn cydadweithio â'r Isafswm Toll Gartref bresennol a sut y gallai olygu bod angen ei disodli.

Mae categori arall o opsiynau polisi a allai ddylanwadu ar brisiau tybaco yn cynnwys ardollau a chynlluniau ffioedd a all godi gwahanol daliadau'n uniongyrchol ar weithgynhyrchwyr, mewnforwyr a manwerthwyr tybaco. Mae effaith y polisïau hyn ar y defnydd o dybaco yn dibynnu'n bennaf ar ymatebion y segmentau yr effeithir arnynt o fewn y diwydiant tybaco i'r taliadau ychwanegol hyn. Mae darpariaeth i'r llywodraethau datganoledig greu cyfundrefnau trwyddedu ar gyfer cynhyrchion tybaco a nicotin wedi'i chynnwys yn Neddf Tybaco a Fêps 2026. Gallai ffioedd trwydded leihau argaeledd tybaco, drwy arwain y manwerthwyr i roi'r gorau i werthu

cynhyrchion tybaco neu roi'r gorau i'w gweithrediadau busnes yn gyfan gwbl. Gallai trwyddedu hefyd wneud tybaco yn ddrutach, naill ai am fod manwerthwyr yn trosglwyddo costau'r drwydded i'r defnyddwyr neu am fod rhaid i'r defnyddwyr dalu mwy i deithio pellteroedd hirach i brynu cynhyrchion tybaco[42]. Gallai'r dull hwn hefyd helpu i orfodi rheoliadau isafbris.

Mae ymdrechion sydd â'r nod o gyfyngu ar y farchnad tybaco anghyfreithlon, yn eu hanfod, yn fath o reoleiddio prisiau gan mai tybaco anghyfreithlon yw'r opsiwn mwyaf fforddiadwy yn amlwg. Mae'r diwydiant tybaco yn tueddu i ddefnyddio'r galw cynyddol am dybaco anghyfreithlon sy'n deillio o hynny i ddadlau yn erbyn cynnydd mawr ym mhrisiau tybaco[27]. Er hynny, mae polisïau i reoli'r cyflenwad tybaco anghyfreithlon yn fwy effeithiol ac mae gostyngiad cyffredinol wedi bod yn lefelau'r tybaco anghyfreithlon yn y DU er gwaethaf cynnydd parhaus mewn trethi[43]. Yn 2024, cyflwynodd Llywodraeth Geidwadol y DU strategaeth newydd i leihau'r galw am dybaco anghyfreithlon a'i hygyrchedd ac i gynyddu gweithgareddau gorfodi yn erbyn y grwpiau troseddau cyfundrefnol sy'n ymwneud â'i gyflenwi[44].

Wrth weithredu rheoliadau prisiau newydd sy'n arwain at gynnydd sylweddol ym mhrisiau'r tybaco mwyaf fforddiadwy, mae yna risg bosibl o stigmateiddio neu osod beichiau ariannol ar unigolion nad ydynt eto'n barod i roi'r gorau iddi neu efallai nad ydynt mewn sefyllfa i roi'r gorau iddi[45]. Os ceir cynnydd sylweddol mewn prisiau, mae'n hanfodol felly ystyried y polisïau ategol a allai liniaru'r canlyniadau niweidiol hyn.

Er enghraifft, gellid paru polisi prisio newydd â buddsoddiadau ychwanegol mewn gwasanaethau arbenigol rhoi'r gorau i ysmygu, gan gynnig cefnogaeth i'r rhai sydd am roi'r gorau iddi ond a allai gael eu hatal gan y costau uwch sy'n gysylltiedig â chynhyrchion tybaco. Yn Lloegr, o 2024 ymlaen, ymrwymodd y llywodraeth £350 miliwn ychwanegol dros 5 mlynedd (£70 miliwn y flwyddyn) i wasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu yn y gymuned drwy'r rhaglen "Stopping the start", gan fwy na dyblu'r cyllid presennol[46].

4.3. Casgliad

Gallai gweithredu isafbris ar gyfer cynhyrchion tybaco yng Nghymru, ochr yn ochr â pholisi treth tybaco'r DU, gynyddu cost y tybaco rhataf yn effeithiol. Mae hyn, yn ei dro, yn cynnig y potensial ar gyfer gostyngiadau sylweddol mewn cyfraddau ysmygu, gwelliannau iechyd cyffredinol, a gostyngiad mewn anghydraddoldebau iechyd. Ochr yn ochr ag unrhyw bolisi prisiau a roddir ar waith, mae'n bwysig cydnabod hefyd yr angen am strategaethau polisi atodol sydd â'r nod o atal masnach anghyfreithlon a helpu unigolion a allai barhau i ysmygu tybaco er gwaethaf y cynnydd mewn prisiau i roi'r gorau i ysmygu trwy raglenni rhoi'r gorau i ysmygu.

Cyfeiriadau

[1] Iechyd Cyhoeddus Cymru. Smoking attributable mortality and hospital admissions for Wales, 2020-22. 2024.

[2] Llywodraeth Cymru. Cymru Ddi-fwg: Strategaeth hirdymor Cymru ar gyfer rheoli tybaco. 2022.

[3] Chaloupka FJ, Powell LM, Warner KE. The Use of Excise Taxes to Reduce Tobacco, Alcohol, and Sugary Beverage Consumption. *Annual Review of Public Health* 2019;40:187-201.

[4] U.S. National Cancer Institute, World Health Organization. The Economics of Tobacco and Tobacco Control. Bethesda, MD: U.S. Department of Health and Human Services, National Institutes of Health, National Cancer Institute; and Geneva, CH: World Health Organization 2016.

[5] Jackson SE, Cox S, Buss V, *et al*. Trends in motives for trying to stop smoking: a population study in England, 2018-2023. *BMJ Public Health* 2024;**2**(1):e000420.

[6] Doogan NW, ME, Berman M. The impact of a federal cigarette minimum pack price policy on cigarette use in the USA. *Tobacco Control* 2018;**27**:203-208.

[7] Golden S, Farrelly M, Luke D, *et al*. Comparing projected impacts of cigarette floor price and excise tax policies on socioeconomic disparities in smoking. *Tobacco Control* 2016;**25**:i60-i66.

[8] Tynan M, Ribisl K, Loomis B. Impact of cigarette minimum price laws on the retail price of cigarettes in the USA. 2013;**22**.

[9] McLaughlin I, Pearson A, Laird-Metke E, *et al*. Reducing tobacco use and access through strengthened minimum price laws. *American Journal of Public Health* 2014;**104**:1844-1850.

[10] Huang J, Chriqui J, DeLong H. Do state minimum markup/price laws work? Evidence from retail scanner data and TUS-CPS. *Tobacco Control* 2016;**25**:i52-i59.

[11] Golden S, Kim K, King A. Simulating the impact of a cigarette minimum floor price law on adult smoking prevalence in California. *Nicotine and Tobacco Research* 2020;**22**(10):1842-1850.

[12] Boettiger DW, JS. Effects of a minimum floor price law on cigarette use in Oakland, California: a static microsimulation model. *Preventive Medicine* 2021;**145**.

[13] Ribisl K, Golden S, Huang J, *et al*. Addressing lower-priced cigarette products through three-pronged comprehensive regulation on excise taxes, minimum price policies and restrictions on price promotions. *Tobacco Control* 2022;**31**(2).

[14] Ma H, Golden S. Impact of New York City Cigarette Floor Price Policy on Reducing Smoking Disparities. *Nicotine and Tobacco Research* 2024.

[15] Critchlow N, Moodie C, Best C, *et al*. Anticipated responses to a hypothetical minimum price for cigarettes and roll-your-own tobacco: an online cross-sectional survey with cigarette smokers and ex-smokers in the UK. *BMJ Open* 2021;**11**(3).

[16] Gillespie D, Morris D, Angus C, *et al.* Model-based appraisal of the potential effects of minimum pricing for tobacco in Scotland. 2024.

[17] Gillespie D, Morris D, Angus CW, L, *et al.* Model-based appraisal of the potential effects of minimum pricing for tobacco in Scotland. *Tobacco Control* 2025.

[18] Hiscock R, Augustin NH, Branston JR, *et al.* Standardised packaging, minimum excise tax, and RYO focussed tax rise implications for UK tobacco pricing. *PloS one* 2020;**15**:e0228069.

[19] Morris D, Gillespie D, Chen R, *et al.* New modelling of alcohol pricing policies, alcohol consumption and harm in Wales: An adaptation of the Sheffield Tobacco and Alcohol Policy Model v2.6.0. Cardiff: Welsh Government, GSR report number 81/2025 2025.

[20] Angus C, Morris D, Leeming G, *et al.* New modelling of alcohol pricing policies, alcohol consumption and harm in Scotland: An adaptation of the Sheffield Tobacco and Alcohol Policy Model. 2023.

[21] Welsh Government, Office for National Statistics. National Survey for Wales. [data series]. 7th Release. UK Data Service. SN: 2000035 2021.

[22] Gillespie D, Brennan A. The Sheffield Tobacco Policy Model (STPM): full technical documentation. The University of Sheffield. 2023.

[23] Welsh Government. Welsh Index of Multiple Deprivation. 2019 Date;Volume. https://statswales.gov.wales/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation.

[24] Webster L, Angus C, Brennan A, *et al.* Smoking and the risks of adult diseases. 2018.

[25] Leeming G, Morris D, Gillespie D, *et al.* Modelling of the health and economic impacts of alcohol and tobacco tax policy in England. The University of Sheffield 2026.

[26] Pryce R, Wilson L, Gillespie D, *et al.* Estimation of integrated price elasticities for alcohol and tobacco in the UK using the Living Costs and Food Survey 2006-2017. *Drug and Alcohol Review* 2023;**43**(1):315-324.

[27] Partos T, Hiscock R, Gilmore A, *et al.* Impact of tobacco tax increases and industry pricing on smoking behaviours and inequalities: a mixed-methods study. *NIHR Journals Library PMID: 32271515* 2020.

[28] Office for Budget Responsibility. Supplementary forecast information release. Tobacco and vaping duty elasticities. 2025.

[29] Branston J, McNeill A, Gilmore A, *et al.* Keeping smoking affordable in higher tax environments via smoking thinner roll-your-own cigarettes: Findings from the International Tobacco Control Four Country Survey 2006–15. *Drug and Alcohol Dependence* 2018;**193**:110-116.

[30] Tunstall H, Wilson L, Valiente R, *et al.* Purchase price of tobacco in small retailers in Great Britain: the relationships with neighbourhood deprivation and urbanicity between 2016–2021. *Tobacco Control* 2025.

[31] Office for National Statistics. Consumer price inflation time series. 2023.

[32] Office for Budget Responsibility. Economic and fiscal outlook November 2022. 2022.

[33] MESAS PHS. Evaluating the impact of alcohol minimum unit pricing in Scotland: Observational study of small retailers 2020. 2020.

[34] Nyakutsikwa B, Britton J, Langley T. The effect of tobacco and alcohol consumption on poverty in the United Kingdom. *Addiction* 2021;**116**(1):150-158.

[35] Khan J. The Khan review: making smoking obsolete. London: Office for Health Improvement and Disabilities. 2022.

[36] HM Treasury. Closed consultation: Minimum excise tax 2014.

[37] Branston J, Gilmore A. The case for Ofsmoke: the potential for price cap regulation of tobacco to raise 500 pound million per year in the UK. *Tobacco Control* 2014;**23**(1):45-50.

[38] Gilmore A, Branston J, Sweanor D. The case for OFSMOKE: How tobacco price regulation is needed to promote the health of markets, government revenue and the public. *Tobacco Control* 2010;**19**(5):423-430.

[39] Scollo M, Branston J. Where to next for countries with high tobacco taxes? The potential for greater control of tobacco pricing through licensing regulation. *Tobacco Control* 2022;**31**:235-240.

[40] Branston J. Industry profits continue to drive the tobacco epidemic: A new endgame for tobacco control? *Tobacco Prevention & Cessation* 2021;**7**(45).

[41] Valiente R, Tunstall H, Kong A, *et al.* Geographical differences in the financial impacts of different forms of tobacco licence fees on small retailers in Scotland. *Tobacco Control* 2024.

[42] Pearson A, Cleghorn C, van der Deen F, *et al.* Tobacco retail outlet restrictions: health and cost impacts from multistate life-table modelling in a national population. *Tobacco Control* 2017;**26**(5):579-585.

[43] HM Revenue and Customs. Measuring tax gaps 2021 edition - tax gap estimates for 2019 to 2020. 2021.

[44] Border Force, HM Revenue & Customs. Stubbing out the problem: A new strategy to tackle illicit tobacco. 2024.

[45] Hoek J, Smith K. A qualitative analysis of low income smokers' responses to tobacco excise tax increases. *International Journal of Drug Policy* 2016;**37**:82-89.

[46] Department of Health and Social Care. Stopping the start: our new plan to create a smokefree generation. 2023.

© 2026 Public Health Wales NHS Trust
Terms of Use
ISBN 978-1-83766-878-6